# Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Hybrid – Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 30 Medi 2024

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# Hybrid

## Cyfarfod cyhoeddus

(13.30 – 15.05)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Sesiwn dystiolaeth gyda Swyddfa'r Farchnad Fewnol

(13.30 – 14.30) (Tudalennau 1 – 3)

Tim Render, Aelod o'r Panel, Swyddfa'r Farchnad Fewnol

James Waugh, Cyfarwyddwr Swyddfa'r Farchnad Fewnol

Adroddiad blynyddol ar weithrediad Marchnad Fewnol y DU 2023 – 2024

[Saesneg yn unig]

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 - Papur 1 – Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

LJC(6)-27-24 - Papur 2 – Cyflwyniad ysgrifenedig gan Swyddfa'r Farchnad Fewnol i Is-bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar Fframwaith Windsor [Saesneg yn unig]

## Egwyl

(14.30 – 14.35)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

(14.35 - 14.40) (Tudalennau 4 - 5)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 - Papur 3 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**3.1 SL(6)518 - Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Adeiladau Crefyddol Esempt) (Cymru) 2024**

**3.2 SL(6)522 - Rheoliadau Marchnata Hadau (Hybridiau Gwenith CMS) (Arbrawf Dros Dro) (Cymru) 2024**

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.40 - 14.50)

**Dogfennau atodol:**

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**4.1 SL(6)516 - Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 6 - 8)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 - Papur 4 - Adroddiad drafft

**4.2 SL(6)517 - Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2024**

(Tudalennau 9 - 13)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 – Papur 5 – Adroddiad drafft

**4.3 SL(6)520 – Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 14 – 15)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 – Papur 6 – Adroddiad drafft

**4.4 SL(6)521 – Rheoliadau Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig (Cymru) 2024**

(Tudalennau 16 – 18)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 – Papur 7 – Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**4.5 SL(6)523 – Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 19 – 20)

Gorchymyn

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 – Papur 8 – Adroddiad drafft

**4.6 SL(6)524 – Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024**

(Tudalennau 21 – 27)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 – Papur 9 – Adroddiad drafft

**4.7 SL(6)525 – Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Tyllu'r Corff (Triniaethau Arbennig) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 28 – 30)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 – Papur 10 – Adroddiad drafft

**4.8 SL(6)526 – Rheoliadau Unigolion sydd wedi eu Hesemptio o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024**

(Tudalennau 31 – 33)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 – Papur 11 – Adroddiad drafft

**4.9 SL(6)527 – Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024**

(Tudalennau 34 – 40)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 – Papur 12 – Adroddiad drafft

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

(14.50 – 14.55)

**5.1 SL(6)507 – Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 41 – 46)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 – Papur 13 – Adroddiad

LJC(6)-27-24 – Papur 14 – Ymateb Llywodraeth Cymru

**5.2 SL(6)519 – Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 47 – 52)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 – Papur 15 – Adroddiad

LJC(6)-27-24 – Papur 16 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(14.55 – 15.00)

**6.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd Grŵpiau Rhyngweinidogol**

(Tudalennau 53 – 56)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 – Papur 17 – Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, 26 Medi 2024

LJC(6)-27-24 – Papur 18 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 26 Medi 2024

**6.2 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ymestyn Cyfnod Trosiannol) ac Iechyd Planhigion (Amlder Gwiriadau) (Diwygio Amrywiol) 2024**

(Tudalennau 57 – 58)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 – Papur 19 – Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 24 Medi 2024

## 7 Papurau i'w nodi

(15.00 – 15.05)

**7.1 Datganiad gan y Prif Weinidog: Cysylltiadau rhynglywodraethol**

(Tudalennau 59 - 62)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 – Papur 20 – Datganiad gan y Prif Weinidog, 24 Medi 2024 [Saesneg yn unig]

**7.2 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Cynllun Masnachu Allyriadau**

(Tudalennau 63 - 64)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 – Papur 21 – Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 26 Medi 2024

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(15.05)

## Cyfarfod Preifat

(15.05 - 16.00)

## 9 Sesiwn dystiolaeth gyda Swyddfa'r Farchnad Fewnol: Trafod y dystiolaeth

(15.05 - 15.20)

## 10 Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru): Adroddiad drafft

(15.20 - 15.40) (To Follow)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 - Papur 22 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 11 Cytundebau rhyngwladol

(15.40 - 15.50) (Tudalennau 65 - 71)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 - Papur 23 - Papur briffio gan Ymchwil y Senedd [Saesneg yn unig]

## 12 Blaenraglen Waith

(15.50 - 16.00) (Tudalennau 72 - 83)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 - Papur 24 - Blaenraglen waith [Saesneg yn unig]

LJC(6)-27-24 - Papur 25 - Llythyr gan y Pwyllgor Busnes, 24 Medi 2024

# Office for the Internal Market (OIM) – written evidence (RGD0001)

**Office for the Internal Market (OIM) submission to House of Lords Sub-Committee on the Windsor Framework**

1. The OIM wishes to thank the Sub-Committee and its officials for the opportunity to provide this written submission. This submission provides an overview of the
OIM's role and explains its remit regarding the Windsor Framework (the Framework).[1]

**Overview of the OIM's role**

2. The OIM was established by the UK Internal Market Act 2020 (the Act) and is part of the Competition and Markets Authority. The Act also established market access principles (MAPs) for goods, services and professional qualifications**.** The OIM's statutory objective is to support, through the application of economic and technical expertise, the effective operation of the UK internal market.[2] It has two main functions:

   (a) Providing reports (or advice, where applicable) upon request of one or more of the governments across the UK in relation to (i) proposed regulatory provisions, (ii) regulatory provisions that have been made or passed, or (iii) enacted regulatory provisions which are considered to have detrimental effects on the UK internal market (provided in each case that the regulatory provisions meet the relevant definition in the Act[3] and subject to the request meeting the OIM's prioritisation principles[4]).
   (b) Reporting on the operation of the UK internal market through annual and periodic reports.[5] The OIM can also review at its own discretion any matter it considers relevant to assessing or promoting the effective operation of the UK internal market and/or the provisions of Parts 1 to 3 of the Act.[6] Such a review can also follow from a proposal from one (or more) of the four governments across the UK, or a third party.[7] (In both instances, again subject to the OIM's prioritisation principles.)

3. The OIM's role is therefore to provide expert reports and advice to the

---

[1] We note that following Joint Declaration No 1/2023 of the Union and the United Kingdom, the Protocol on Ireland/Northern Ireland is commonly referred to as the 'Windsor Framework.'
[2] See sections 31(2) and (3) of the Act.
[3] See sections 34 to 36 of the Act.
[4] See chapter 4 of the OIM's Operational Guidance.
[5] See sections 33(5) and (6) of the Act.
[6] See section 33(1) of the Act.
[7] See section 33(2) of the Act.

governments across the UK, in particular about the impact of certain regulatory provisions on the UK internal market. This may include regulatory measures affecting trade in goods and services, or the use of a professional qualification. It is important to note that the OIM's role is advisory and not decision-making: decisions about legislation or the functioning of the UK internal market are for the governments and legislatures of the UK.

**OIM's remit regarding the Framework**

4. The OIM does not collect data specifically about the Framework nor review or advise on the Framework itself, and any legislation necessary to give effect to the Framework falls outside the OIM's statutory remit (although other UK internal market matters relating to Northern Ireland are within its remit[8]). However, through our general monitoring role in relation to the UK internal market, we will capture trade data relating to Northern Ireland, which may be useful when considering the effects of the Framework. We may also refer to the Framework when producing reports or advice, where the presence of the Framework and its effects, or potential effects, are relevant to our analysis. We explain this further below.

5. For the purpose of our functions described in paragraph 2(a) above, it is beyond our statutory remit to consider a regulatory provision to the extent that it contains anything that is necessary to give effect to the Framework (as this would not fall within the relevant definition in the Act).[9,10]

6. In relation to our monitoring and reporting function, as described in paragraph 2(b) above, the effects of the Framework on the UK internal market may be relevant and therefore reflected in associated work. For example, the Framework may be relevant if the OIM is considering the effects, or potential effects, of regulatory divergence on UK-wide trade within a particular sector.

7. Further, as noted in paragraph 2(b) above, the OIM is required to publish annual and periodic reports. Whilst these reports do not review the Framework (or any legislation necessary to implement it), they may refer to the Framework where appropriate or necessary:

   (a) The OIM's 2023 Annual Report[11] included analysis of trade flows between all four nations of the UK. It also reported on proposed regulatory developments in Northern Ireland, including instances where regulations

---

[8] The Framework only applies to a particular aspect of intra-UK trade, namely the movement of goods between Great Britain and Northern Ireland, and to which relevant provisions of the Act, such as the MAPs in relation to goods, do not apply. The Act, and the OIM's remit in relation to other aspects of intra-UK trade such as services and professional qualifications, are unaffected by the Framework.

[9] The Act sets out the type of regulatory provision which can be the subject of a request to the OIM for advice; see section 30(9).

[10] Those aspects of legislation which go beyond what is necessary to give effect to the Framework – for example additional legal requirements introduced by the Northern Ireland Assembly that go further than EU standards in the relevant area, will fall within the scope of the Act and the OIM's remit.

[11] 2023 Annual Report.

in Northern Ireland may be required to remain aligned to the EU as a result of the Framework. It also noted that future regulatory developments in one (or more) of the other nations may, indirectly, lead to regulatory divergence between Northern Ireland and the other nations as Northern Ireland remains aligned to the EU.

(b) The OIM's 2023 Periodic Report[12] sought views from the four governments across the UK on how the MAPs were operating and affecting policymaking, and whether they were effective in supporting the UK internal market. In its response, the Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs in Northern Ireland considered the fact that the MAPs do not apply to certain goods moving from Great Britain to Northern Ireland could become more significant in the future.[13]

8. The OIM's 2024 Annual Report (due to be published in Spring 2024) will similarly report on Northern Ireland's role within the UK internal market. We plan to draw on additional sources of information about trade between Great Britain and Northern Ireland and include commentary on these trade dynamics, balancing our remit in legislation and the interest in understanding Northern Ireland's place within the UK internal market.

9. In addition, the OIM is committed to supporting the improvement of intra-UK trade data and a collective understanding of how the UK internal market is operating, including improvements to Northern Ireland trade statistics. An update on the progress of initiatives set out in the OIM's Data Strategy Roadmap[14] will be published in Spring 2024.

10. The OIM is happy to provide clarification of any of the matters covered in this submission to the Sub-Committee should this be of assistance.

[12] 2023 Periodic Report.
[13] See paragraph 2.29 of the OIM's 2023 Periodic Report. To note that this statement referred to the situation under the Protocol as the Windsor Framework was yet to be agreed.
[14] OIM Data Strategy Roadmap 2023.

Eitem 3

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 30 Medi 2024

## SL(6)518 – Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Adeiladau Crefyddol Esempt) (Cymru) 2024

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o weithrediad Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ("Deddf 2023").

Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth i esemptio adeiladau crefyddol rhag rhai o ddarpariaethau Deddf 2023 sy'n gymwys i adeiladau rhestredig.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**Fe'u gwnaed ar:** 09 Medi 2024

**Fe'u gosodwyd ar:** 11 Medi 2024

**Yn dod i rym ar:** 04 Tachwedd 2024

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 30 Medi 2024

## SL(6)522 – Rheoliadau Marchnata Hadau (Hybridiau Gwenith CMS) (Arbrawf Dros Dro) (Cymru) 2024

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae rheoliad 21A o Reoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru esemptio drwy drwydded unrhyw berson neu ddosbarth ar berson rhag cydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau'r Rheoliadau hynny at ddibenion arbrawf dros dro sy'n chwilio am ddulliau amgenach na'r darpariaethau sy'n bodoli eisoes.

Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu arbrawf dros dro, i bara saith mlynedd, gyda'r nod o gyflwyno safonau ar gyfer ardystio hadau gwenith hybrid a gynhyrchir trwy dechneg Anffrwythlondeb Gwryw Cytoplasmig (CMS), i ganiatáu iddynt gael eu marchnata ar safon is o ran purdeb yr amrywogaeth (hynny yw, canran yr hadau a ddylai gydymffurfio â'r disgrifiad o'r amrywogaeth) nag sy'n ofynnol ar hyn o bryd ar gyfer hadau gwenith hybrid.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn darparu gweithdrefn drwyddedu i'r rhai sy'n dymuno cymryd rhan yn yr arbrawf, yn ogystal ag amlinellu rhwymedigaethau cofnodi ac adrodd i gyfranogwyr.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Amrywogaethau Planhigion a Hadau 1964

**Fe'u gwnaed ar:** 11 Medi 2024

**Fe'u gosodwyd ar:** 16 Medi 2024

**Yn dod i rym ar:** 07 Hydref 2024

# SL(6)516 – Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o'r gwaith o weithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ("Deddf 2023").

Mae'r rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion gweithdrefnol ar gyfer ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig, gan gynnwys apelau mewn perthynas â'r ceisiadau hynny, achosion arbennig, darpariaethau mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth ag adeiladau rhestredig a materion amrywiol eraill, gan gynnwys y gyfradd llog rhagnodedig ar gyfer cost gwaith brys.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**
   Yn rheoliad 6(4), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n cyfeirio at baragraff "(2)(c) neu (d)" ond yn y testun Cymraeg mae'n cyfeirio at baragraff "(2)(2)(c) neu (d)".

2. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**
   Yn rheoliad 19(4)(d), mae lleoliad y testun i'w ddiwygio yn rheoliad 9 wedi'i nodi'n anghywir fel "ym mharagraff 9(1)" ond dylai nodi "ym mharagraff (1)".

3. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**
   Yn rheoliad 22(9), yn y geiriau agoriadol cyn is-baragraffau (a) a (b), mae'r addasiad yn datgan "Mae Rheoliad 15(1)...yn gymwys fel pe bai". Yn is-baragraff (b), fodd bynnag,

mae'n datgan bod "paragraff (3) wedi ei hepgor" nad yw i'w gael ym mharagraff (1) o reoliad 15. Felly, nid yw'r addasiad yn llwyddo fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd. Dim ond at reoliad 15 y dylai gyfeirio yn y geiriau agoriadol, a dylid cynnwys y geiriau "ym mharagraff (1)" ar ddechrau is-baragraff (a).

4. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**
   Yn Atodlen 2, ym mharagraff 6, yn y testun Saesneg, nid yw strwythur a gwaith drafftio'r ddarpariaeth yn llwyddo oherwydd nad yw is-baragraff (c) ac is-baragraff (d) yn cwblhau ystyr y geiriau agoriadol cyn is-baragraff (a). Yn y testun Cymraeg, mae'r geiriau sy'n cyfateb i "yr adeilad a'r tir cysylltiedig" ar ddiwedd y geiriau agoriadol hynny wedi'u cynnwys yn lle hynny ar ddechrau is-baragraffau (a) a (b). O ganlyniad, mae gwaith drafftio'r ddarpariaeth yn llwyddo yn y testun Cymraeg ond nid yn y testun Saesneg.

5. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**
   Yn Atodlen 4, ym mharagraff 6, mewnosodir Atodlen 1A newydd yn Rheoliadau Ceisiadau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth a Henebion Hynafol) 1992. Yn yr Atodlen 1A newydd, ym mharagraff 1(c) a (d), mae'r addasiadau yn cyflwyno is-baragraff (aa) newydd yn nhestun Cymraeg a Saesneg rheoliad 6(2) o'r Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024. Fodd bynnag, defnyddir y term "cais cydredol" ("concurrent application") yn is-baragraff (aa)(i) ond nid yw wedi'i ddiffinio at ddibenion rheoliad 6 o Reoliadau 2024. Mae diffiniad o'r term hwnnw yn yr Atodlen 1A newydd, yn yr addasiadau a wneir gan baragraff 1(i)(iii) a (j)(iii) ond dim ond ar gyfer rheoliad 8 o Reoliadau 2024 y mae wedi'i ddiffinio.

6. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**
   Yn Atodlen 4, ym mharagraff 6, mewnosodir Atodlen 1A newydd yn Rheoliadau Ceisiadau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth a Henebion Hynafol) 1992. Fodd bynnag, mae paragraffau 1(e) ac (f) o'r Atodlen 1A newydd yn methu â nodi'r rheoliad lle y dylid mewnosod y paragraff (4) newydd wrth addasu Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024. Yn ogystal, mae ansicrwydd hefyd a yw'r paragraff newydd (4) sydd i'w fewnosod wedi'i rifo'n gywir ai peidio.

7. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**
   Yn Atodlen 4, ym mharagraff 12(a), amnewidir paragraff 2 newydd yn Rhan 2 o Atodlen 4 i Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016. Yn y paragraff 2 newydd, mae gwahaniaeth o ran gwaith drafftio'r addasiadau a geir yn yr ail golofn ar

gyfer "Rheoliad 12" a "Rheoliad 13". Yn ail golofn y cofnod ar gyfer "Rheoliad 12" mae testun addasedig y rheoliad hwnnw yn datgan "y cyfnod penderfynu y cyfeirir ato yn adran 62L o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990". Ond yn ail golofn y cofnod ar gyfer "Rheoliad 13", ym mharagraff (b) mae testun addasedig y rheoliad hwnnw yn datgan "y cyfnod penderfynu y cyfeirir ato yn adran 62L o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990". Mae'r un mater hefyd yn digwydd yn Atodlen 4, sef ym mharagraff 13(a) sydd â darpariaeth gyfatebol ar gyfer Rhan 2 o Atodlen 5 i Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016. Nid yw'n glir a yw'r gwahaniaethau hyn yn fwriadol nac a ydynt wedi'u gwneud am unrhyw reswm penodol.

8. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**
   Yn Atodlen 4, ym mharagraff 15(c), yn y disgrifiad o leoliad y gwelliant, dylai nodi "paragraff (a)(ii)" yn hytrach nag "is-baragraff (a)(ii)". Hefyd, dylid cynnwys is-baragraff rhif (ii) o fewn y dyfynodau cyn y testun newydd sy'n disodli'r testun presennol.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**24 Medi 2024**

# SL(6)517 - Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2024

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol ar Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ("Deddf 2023"), sef y Ddeddf gydgrynhoi gyntaf yn rhaglen Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Mae'r Rheoliadau'n diweddaru cyfeiriadau at hen ddeddfwriaeth yn bennaf sydd bellach wedi'i hailddatgan yn Neddf 2023. Maent hefyd yn adlewyrchu newidiadau yn y derminoleg a ddisgrifir ym mharagraff 22 o Nodiadau'r Drafftwyr i Ddeddf 2023[1].

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn rhan o'r cod cyfraith sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, ond maent yn diwygio rhai rheoliadau presennol i'w gwneud yn rhan o'r cod amgylchedd hanesyddol.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 11 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 2, mae'n ymddangos bod y ddarpariaeth yn diwygio testun fersiwn gynharach o Atodlen 2 i Reoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979, sydd wedi'i diwygio gan offerynnau statudol eraill. Mae rheoliad 2 yn diwygio'r fersiwn gynharach ac nid yr Atodlen 2 newydd, sy'n pennu'r manylion y mae'n rhaid eu cynnwys gydag unrhyw gais am drwydded cwympo coed. Felly, dylai'r diwygiad a wneir gan reoliad 2 nodi "ym mharagraff (i)" yn hytrach nag "ym mharagraff (4)(i) o'r Nodiadau" i nodi'n gywir leoliad y geiriau yn y testun presennol yn Atodlen 2 i Reoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979.

[1] ascod_20230003_we_001.pdf (legislation.gov.uk)

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliadau 3 a 4 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Henebion Hynafol (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) 1981 ("Rheoliadau 1981") a Gorchymyn Henebion Hynafol (Cydsyniadau Dosbarth) 1981 ("Gorchymyn 1981") yn y drefn honno. Yn y ddau achos, gwneir y diwygiadau i ddarpariaethau sydd wedi'u dirymu, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau arbed. Yn achos Rheoliadau 1981, nid yw'r dirymiad yn gymwys i geisiadau a wnaed cyn 31 Mai 2017. Yn achos Gorchymyn 1981, nid yw'r dirymiad cael effaith mewn perthynas â gwaith a ddechreuwyd cyn i'r Gorchymyn a wnaeth y dirymiad ddod i rym, sef 14 Mehefin 1994. O ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers y dyddiadau a nodir yn y darpariaethau arbed, gofynnir am eglurhad ynghylch pam yr oedd angen gwneud y diwygiadau a nodir yn Rheoliadau 3 a 4 a beth yw eu heffaith mewn termau ymarferol.

3. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 6 yn diwygio erthygl 1(2) o Gorchymyn Ardaloedd o Bwysigrwydd Archaeolegol (Hysbysiad o Weithrediadau) (Esemptio) 1984 i hepgor y geiriau "and Wales". Fodd bynnag, nid yw Erthygl 1(2) yn cynnwys y geiriau "and Wales". Ymddengys y dylai'r geiriau i'w hepgor fod "or Wales".

4. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 16(b), yn y testun newydd a fewnosodir yn erthygl 7 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, mae geiriau ar goll o'r disgrifiad yn adran 76(1) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. Dylai'r disgrifiad nodi "(duty to maintain <u>and publish</u> list of buildings)" (ein pwyslais ni), fel y'i defnyddiwyd yn rheoliad 127(f).

Mae mater tebyg yn codi mewn perthynas â rheoliad 69, lle cyfeirir at bennawd paragraff 2(6) o Atodlen 9 i Ddeddf 2023, a ddylai nodi "(action <u>to be taken</u> by Welsh Ministers on rejection of purchase notice by planning authority)" (ein pwyslais ni). Mae'r un pwynt yn codi yn rheoliad 135(b).

5. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliadau 32, 71, 87, 95, 114 a 126, ymddengys y dylid gwneud diwygiad pellach hefyd i bennawd y rheoliadau unigol penodol sy'n cael eu diwygio, i ychwanegu'r gair "and code". Mae hyn oherwydd bod darpariaeth newydd wedi'i mewnosod sy'n nodi bod yr offeryn statudol bellach yn rhan o god cyfraith. Mae hyn wedi'i wneud yn yr offerynnau statudol newydd eraill sydd wedi'u gwneud mewn perthynas â Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol 2023 megis OS 2024/932 (Cy. 156), felly byddai'n ddefnyddiol deall pam nad yw hyn wedi'i wneud mewn perthynas â yr offerynnau sy'n cael eu diwygio.

6. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn rheoliad 47, yn y testun Cymraeg, nid yw'r diwygiad yn llwyddo i gael yr effaith a fwriedir oherwydd bod y diffiniad newydd o "heneb gofrestredig" wedi'i ddiffinio'n ddwyieithog yn adran 3(7) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. Felly, mae angen diwygio'r geiriau presennol "a roddir i "scheduled monument"" hefyd yn nhestun Cymraeg paragraff (f) yn y diffiniad o "ardal sensitif" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau) (Cymru) 2009. Roedd y geiriau ychwanegol hynny'n angenrheidiol yn y testun presennol oherwydd bod "scheduled monument" wedi'i ddiffinio yn Saesneg yn unig yn Neddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979.

Mae'r mater hwn hefyd yn codi yn y diwygiadau a wneir gan reoliad 61 a 76(a) o'r Rheoliadau hyn.

7. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 63(c) yn mewnosod diffiniadau newydd yn Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014. Fodd bynnag, ar ôl pob term a ddiffinnir, mae'r diffiniadau yn yr iaith gyfatebol wedi'u hepgor.

8. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 64 yn diwygio'r Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Partïon a chanddynt Fuddiant a Darpariaethau Rhagnodedig Amrywiol) 2015. Mae'r diwygiad yn hepgor y cofnod ar gyfer Deddf Henebion Hynafol a Mannau Archeolegol 1979 yn y tabl yn Atodlen 2 ac yn ei ddisodli â chofnod ar gyfer Deddf 2023. Mae pob cofnod arall yn y tabl hwnnw mewn trefn gronolegol, ond mae'r cofnod ar gyfer Deddf 2023 bellach wedi'i restru rhwng deddfwriaeth o 1976 a 1980, a all ei gwneud yn anodd i'r darllenydd ddod o hyd iddo. Byddai'n ddefnyddiol cael eglurhad ynghylch pam na symudwyd y cofnod ar gyfer Deddf 2023 i ddiwedd y tabl er mwyn cynnal y drefn gronolegol.

9. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 99 yn mewnosod darpariaeth newydd yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017"). Mae'r ddarpariaeth hon yn nodi nad yw paragraffau (1) i (7) o reoliadau 4 a 5 o Reoliadau 2017 yn gymwys o dan amgylchiadau penodol. Fodd bynnag, nid oes gan reoliad 5 o Reoliadau 2017 unrhyw baragraffau wedi'u rhifo. Ymddengys y dylai'r diwygiad yn rheoliad 99 ei gwneud yn glir nad yw rheoliad 5 o Reoliadau 2017 yn gymwys yn ei gyfanrwydd er mwyn osgoi dryswch.

**10. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 130 yn diwygio Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Adolygu Penderfyniadau Rhestru) (Cymru) 2017. Mae'n disodli'r geiriau "section 2A of the 1990 Act" yn rheoliadau 6(2) a 7(2)(c) o'r rheoliadau hynny. Fodd bynnag, nid yw rheoliad 7(2)(c) yn cynnwys y geiriad a nodir. Credir mai'r cyfeiriad cywir ddylai fod at reoliad 7(2)(b).

**11. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Drwy'r Rheoliadau i gyd, mabwysiadwyd dull anghyson ar gyfer yr arddull drafftio, gan gynnwys:

- mewn rhai achosion, pan fo'r Rheoliadau'n diwygio darpariaethau gyda chysyllteiriau ar y diwedd, nid yw'n glir a ddylai'r cysyllteiriau hynny aros yno ai peidio – mae rhai yn ei gwneud yn glir drwy ddefnyddio termau fel "ond nid y "neu" ar ei ôl" mewn perthynas â'r gwelliant, tra nad yw eraill yn gwneud hynny, er enghraifft y gwelliant yn rheoliad 106;
- mae cyfeiriadau'n amrywio drwyddi draw rhwng "adran 3" ac "adran 3(7)" o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol 2023 wrth ddiffinio'r term "heneb gofrestredig"; ac
- mae'r rhaniadau o fewn diffiniadau a geir yn yr offerynnau statudol yn cael eu disgrifio'n anghywir dro ar ôl tro fel "is-baragraffau" ond dylid eu disgrifio'n gywir fel "paragraffau".

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**12. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodir nad oedd nifer o ddarpariaethau Deddf 2023 y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hyn mewn grym ar y dyddiad y gwnaed y Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, yn unol â Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Cychwyn) 2024, daw gweddill darpariaethau Deddf 2023 (ac eithrio adran 147, na chyfeirir ati yn y Rheoliadau hyn) i rym ar 4 Tachwedd 2024, sef yr un dyddiad ag y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

**13. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nid oedd y Rheoliadau hyn yn destun unrhyw ymgynghoriad. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

> *Nid oes unrhyw ymgynghoriad wedi'i gynnal ar y rheoliadau, gan eu bod yn adlewyrchu polisi presennol ac yn ailddatgan gweithdrefnau presennol.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru ar gyfer pob pwynt adrodd technegol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**25 Medi 2024**

# Eitem 4.3

## SL(6)520 – Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024

### Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o becyn o is-ddeddfwriaeth sy'n dwyn i rym ac yn gweithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ('Deddf 2023') Mae Deddf 2023 yn gwarchod henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig ac yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru gynnal cofnod (y cyfeirir ato fel "cofrestr") o henebion yng Nghymru sydd o bwysigrwydd cenedlaethol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch cytundebau partneriaeth sy'n ymwneud â henebion cofrestredig yng Nghymru.

Cytundeb rhwng Gweinidogion Cymru a pherchennog heneb gofrestredig yng Nghymru, neu berchennog tir sy'n cydffinio â heneb gofrestredig o'r fath, neu sydd yng nghyffiniau heneb gofrestredig o'r fath yw cytundeb partneriaeth. Gall fod partïon ychwanegol hefyd i gytundeb partneriaeth, gan gynnwys unrhyw berson arall a chanddo fuddiant yn yr heneb neu'r tir cysylltiedig. Caiff cytundeb partneriaeth ymwneud â mwy nag un heneb gofrestredig. Mae cytundebau partneriaeth yn gytundebau gwirfoddol ar gyfer rheoli un neu fwy o asedau yn yr hirdymor. Caif cytundeb partneriaeth heneb gofrestredig roi cydsyniad heneb gofrestredig ar gyfer rhaglen waith y cytunwyd arni i'w chyflawni yn ystod oes y cytundeb.

Mae'r fframwaith ar gyfer cytundeb partneriaeth wedi'i nodi yn adran 25 i adran 29 o Ddeddf 2023.

Mae rheoliad 3 yn nodi'r gofynion ymgynghori a chyhoeddusrwydd ar gyfer cytuno ar gytundebau a'u hamrywio.

Mae rheoliad 4 yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr, drwy ddulliau electronig, o gytundebau partneriaethau sydd mewn effaith. Rhaid i Weinidogion Cymru ddiweddaru'r rhestr cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ymrwymo i gytundeb partneriaeth newydd neu os caiff amrywiadau eu gwneud.

Mae Rheoliad 5 yn dirymu Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021.

### Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan

fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 3(5)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru anfon yr wybodaeth a ddisgrifir yn rheoliad 3(5)(a) at *"unrhyw berson y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod ganddo fuddiant yn y cytundeb drafft neu'r amrywiad drafft, ac eithrio person yr anfonwyd y cytundeb drafft neu'r amrywiad drafft ato o dan baragraff (4)"*. Mae paragraff (4) yn cynnwys perchennog heneb gofrestredig neu dir cysylltiedig, meddiannydd heneb gofrestredig neu dir cysylltiedig, unrhyw awdurdod lleol y mae'r heneb gofrestredig neu'r tir cysylltiedig yn ei ardal, ac unrhyw awdurdod lleol sy'n warcheidwad ar yr heneb gofrestredig neu'r tir cysylltiedig. Byddai'n ddefnyddiol deall pa bersonau, neu gategorïau o bersonau ychwanegol y gellid ystyried bod ganddynt fuddiant yn y cytundeb drafft neu'r amrywiad drafft.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodir nad oedd rhai o ddarpariaethau Deddf 2023 y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hyn mewn grym ar y dyddiad y gwnaed y Rheoliadau hyn. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys adran 25 o Ddeddf 2023.

Fodd bynnag, yn unol â Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Cychwyn) 2024, daw gweddill darpariaethau Deddf 2023 (ac eithrio adran 147, na chyfeirir ati yn y Rheoliadau hyn) i rym ar 4 Tachwedd 2024, sef yr un dyddiad ag y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru i bwynt adrodd 1, uchod.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**25 Medi 2024**

Eitem 4.4

# SL(6)521 – Rheoliadau Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig (Cymru) 2024

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan bwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ("Deddf 2023"). Mae Deddf 2023 yn ffurfio rhan o god o gyfraith sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn rhan o'r Cod hwnnw.

Mae Deddf 2023 yn gwarchod henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig. Gall heneb fod yn adeilad, strwythur, gwaith, ogof neu gloddiad, neu safle. Mae Deddf 2023 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru gynnal cofnod (y cyfeirir ato fel "cofrestr") o henebion yng Nghymru sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. Ni chaniateir i fathau penodol o waith gael eu cyflawni i "heneb gofrestredig" oni bai bod y gwaith wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru. Yr enw ar yr awdurdodiad hwn yw "cydsyniad heneb gofrestredig" ac fe'i rhoddir o dan Ran 2 o Ddeddf 2023.

Mae'r fframwaith ar gyfer ceisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig wedi ei nodi yn adrannau 14 a 15 o Ddeddf 2023. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch ceisiadau o'r fath sy'n ymwneud â henebion cofrestredig yng Nghymru.

Mae rheoliad 2 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch ffurf a chynnwys cais am gydsyniad heneb gofrestredig, sut i wneud cais o'r fath, a'r dogfennau y mae rhaid eu cynnwys gydag ef.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Ceisiadau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth a Henebion Hynafol) 1992 ("Rheoliadau 1992"). Mae Rheoliadau 1992 yn cysoni'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud ceisiadau a chynnal ymchwiliadau pan fo cais a wneir o dan adran 6 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad heneb gofrestredig.

Mae rheoliad 4 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016.

Mae rheoliad 5 yn dirymu Rheoliadau Henebion Hynafol (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) (Cymru) 2017.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 3(3)(b), nodir y lleoliad ar gyfer mewnosod y testun newydd gan y diwygiad fel "ar ôl "consent"…" ym mharagraff (1) o reoliad 4 o Reoliadau Ceisiadau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth a Henebion Hynafol) 1992. Fodd bynnag, mae'r gair "consent" yn digwydd ddwywaith yn nhestun presennol paragraff (1) yn rheoliad 4 o'r Rheoliadau hynny. Fe'i ceir yn y geiriau agoriadol cyn is-baragraff (a) ac yn yr is-baragraff hwnnw ei hun, ac mae'r ddau ohonynt yn rhan o baragraff (1) yn rheoliad 4. Felly, nid yw'r diwygiad yn nodi'n bendant ym mha le y dylid mewnosod y testun newydd nac a ddylid ei fewnosod lle mae'r gair "consent" yn digwydd gyntaf yn unig neu yn y ddau le.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn rheoliad 3(6), mewnosodir Atodlen 3 newydd yn Rheoliadau Ceisiadau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth a Henebion Hynafol) 1992. Ym mharagraff 1(a) o'r Atodlen 3 newydd, yn y testun Cymraeg, mae'r gair "declarasiwn" wedi cael ei ddefnyddio i gyfleu ystyr "declaration" yn yr addasiad o adran 15(1)(aa) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. Mae hyn yn gyson â'r derminoleg yn nhestun Cymraeg presennol adran 15 o'r Ddeddf honno. Mae hefyd yn gyson â'r cofnod ar ei gyfer yng nghronfa ddata Llywodraeth Cymru o dermau, BydTermCymru, sy'n nodi bod gan "declarasiwn" statws A fel y term cwbl safonol ar gyfer "declaration", gyda nodyn ychwanegol i egluro nad yw'r gair hwn yn gyfystyr â'r gair "datganiad" mewn cyd-destun cyfreithiol.

Mae paragraff 2 o'r Atodlen 3 newydd hefyd yn addasu Rheoliadau Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig (Cymru) 2024. Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg, ym mharagraff 2(b) o'r Atodlen 3 newydd, y gair "datganiad" yn hytrach na "declarasiwn" sy'n cael ei ddefnyddio i gyfleu ystyr "declaration" ym mhennawd a chorff y rheoliad 2A newydd ac ym mhennawd a geiriau agoriadol Ffurf datganiad y testun addasedig. Felly, mae'r term a ddewiswyd ar gyfer "declaration" yn nhestun Cymraeg yr addasiadau ym mharagraff 2(b) o'r Atodlen 3 newydd yn anghyson â'r hyn a ddefnyddiwyd yn yr addasiadau cynharach ym mharagraff 2(a) o'r Atodlen 3 newydd a'r testun presennol a geir yn adran 15 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, ac mae'n wahanol i'r term safonol ar BydTermCymru. Yn ogystal, defnyddir y gair "datganiad" yn nhestun Cymraeg yr holl addasiadau ac yn nhestun presennol adran 15 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 i gyfleu ystyr y gair "statement". O ganlyniad, ni fydd darllenydd y testun Cymraeg yn gallu gwahaniaethu rhwng "declaration" a "statement" gan fod yr un gair wedi'i ddefnyddio i fynegi'r ddau derm yn yr addasiadau i baragraff 2(b) yn yr Atodlen 3 newydd.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodir nad oedd adran 13(1) a (2) o Ddeddf 2023 y cyfeirir ati yn y Rheoliadau hyn mewn grym ar y dyddiad y gwnaed y Rheoliadau hyn.

Fodd bynnag, yn unol â Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Cychwyn) 2024, bydd gweddill darpariaethau Deddf 2023 (ac eithrio adran 147, na chyfeirir ati yn y Rheoliadau hyn) yn dod i rym ar 4 Tachwedd 2024, yr un dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**25 Medi 2024**

# SL(6)523 – Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau (Diwygio) 2024

## Cefndir a diben

Fel rhan o'r newid i gerbydau â dim allyriadau ("ZEVs"), sefydlodd Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau 2023 ("Gorchymyn 2023") bedwar cynllun masnachu ledled Prydain Fawr i gyfyngu ar nifer y cerbydau newydd nad ydynt yn ZEVs y gellir eu cofrestru ym Mhrydain Fawr (y "Mandad ZEV"), a'r allyriadau carbon deuocsid o gerbydau o'r fath. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â Gorchymyn 2023 yn egluro y bydd y Gorchymyn yn cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau Cymru a'r Deyrnas Unedig ac at nod Sero Net.

Mae'r Gorchymyn hwn yn estyn cwmpas tiriogaethol y cynlluniau masnachu a sefydlwyd gan Orchymyn 2023 i gynnwys Gogledd Iwerddon o 1 Ionawr 2025. Mae hefyd yn gwneud nifer o ddiwygiadau a chywiriadau technegol i Orchymyn 2023 a diwygiadau canlyniadol i gyfraith a gymathwyd

## Y weithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn gerbron Senedd Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Rhaid i'r drafft gael ei gymeradwyo gan bob un o'r deddfwrfeydd hynny cyn y gellir ei wneud gan Ei Fawrhydi.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg**

Gosodwyd y Gorchymyn gerbron Senedd Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Mae'r Gorchymyn wedi'i wneud yn Saesneg yn unig. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn datgan fel a ganlyn (ym mharagraff 2.2):

> *"Gan mai Senedd y DU fydd yn craffu ar y Gorchymyn, ni ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol creu na gosod yr offeryn hwn yn ddwyieithog."*

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Rydym yn nodi'r dyfyniadau a ganlyn o'r Memorandwm Esboniadol ynghylch ymgynghori mewn perthynas â Mandad ZEV:

> *"Rhwng 30 Mawrth 2023 a 24 Mai 2023, cynhaliodd Llywodraeth flaenorol y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, ac Adran Seilwaith Gogledd Iwerddon ymgynghoriad cyhoeddus …yn gofyn am farn ar "fandad cerbyd allyriadau sero (ZEV) a rheoleiddio allyriadau CO2 ar gyfer ceir a faniau newydd yn y DU"…*
>
> *Roedd yr ymgynghoriad hwn yn llywio'r datblygiad ac yn y pen draw daeth VETS i rym [Gorchymyn 2023].* Oherwydd absenoldeb Cynulliad Gogledd Iwerddon yn ystod hydref 2023, er bod yr ymgynghoriad yn cynnig gweithredu Mandad ZEV ledled y DU nid oedd yn bosibl iddo wneud cais yng Ngogledd Iwerddon. Cafodd hyn ei gyfleu yn yr ymateb i'r ymgynghoriad (a gyhoeddwyd ar 28 Medi 2023) ochr yn ochr ag ymrwymiad gan yr Adran Seilwaith (Gogledd Iwerddon), Llywodraeth flaenorol y DU, Llywodraeth Cymru, a Llywodraeth yr Alban ei bod yn parhau i fod yn fwriad ar y cyd i Ogledd Iwerddon ymuno â Mandad ZEV pe bai cynulliad eistedd yn dewis gwneud hynny. *Mae'r ddeddfwriaeth ddiwygio hon yn gweithredu'r ymrwymiad hwnnw yn ogystal â gwneud diweddariadau technegol a chywiriadau i ddod â'r fframwaith deddfwriaethol i gyd-fynd yn agosach â'r ymgynghoriad a'r ymateb hwn."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**24 Medi 2024**

# SL(6)524 - Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024

## Cefndir a diben

Mae Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") yn darparu bod rhaid i unigolion penodol sy'n rhoi triniaethau arbennig (fel y'u rhestrir yn adran 57 o'r Ddeddf) yng Nghymru gael eu trwyddedu gan awdurdod lleol. Mae'r triniaethau arbennig hynny fel a ganlyn:

- aciwbigo,
- tyllu'r corff,
- electrolysis,
- tatŵio.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch ceisiadau am drwyddedau triniaeth arbennig gan gynnwys y meini prawf y mae rhaid eu bodloni er mwyn i gais am drwydded triniaeth arbennig gael ei ganiatáu. Mae Rhan 2 hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys ffurflen gais, a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys trwydded triniaeth arbennig (fel y'i nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn).

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amodau trwyddedu mandadol sy'n gymwys i drwydded triniaeth arbennig (fel y'u nodir yn Atodlenni 3 i 7 i'r Rheoliadau).

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch ffioedd mewn perthynas â thrwyddedau triniaeth arbennig.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd yr 16 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn fersiwn Saesneg y Rheoliadau, mae'r pennawd 'Part 1' a'i deitl ar goll. Mae fersiwn Gymraeg y Rheoliadau yn cynnwys "*Rhan 1 Cyffredinol*".

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae'n ymddangos bod geiriau ar goll o reoliad 4(1):

> *Mae'r meini prawf trwyddedu y mae rhaid i unigolyn ("ceisydd") am drwydded triniaeth arbennig eu bodloni er mwyn caniatáu'r cais wedi eu nodi ym mharagraffau (2) i (4).*

Mae adran 62(1) o'r Ddeddf yn nodi "*Rhaid i reoliadau nodi meini prawf y mae rhaid eu bodloni **ar gais** gan unigolyn ("ceisydd") am drwydded triniaeth arbennig…*" (pwyslais wedi'i ychwanegu).

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 6(1) yn nodi bod rhaid i drwydded triniaeth arbennig fod mewn dwy ran, fel y nodir yn Atodlen 2. Fodd bynnag, ymddengys eu bod wedi'u gosod mewn atodlenni ar wahân, a chyfeirir at y ddwy fel "*Atodlen 2*". Mae'r Atodlen 2 gyntaf yn nodi ffurf a chynnwys rhan 1 o drwydded triniaeth arbennig, ac mae'r ail Atodlen 2 yn nodi ffurf a chynnwys rhan 2 o drwydded triniaeth arbennig. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru gadarnhau a yw ffurf a chynnwys y drwydded triniaeth arbennig wedi'u nodi mewn un atodlen neu ddwy atodlen ar wahân.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 6(6) yn diffinio "*mangre neu gerbyd a gymeradwywyd*" at ddiben Atodlen 2. Fodd bynnag, yr ymadrodd a ddefnyddir yn yr ail Atodlen 2, yw "*mangreoedd **a/neu** gerbydau a gymeradwywyd*" (pwyslais wedi'i ychwanegu).

**5. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 7(3) yn diffinio *"yr amodau triniaeth arbennig cymwys"* drwy gyfeirio at dabl ym mharagraff (4). Ymddengys fod y tabl ym mharagraff (3) gan nad oes paragraff (4) yn rheoliad 7. O ganlyniad, mae'r nodiadau cwr tudalen yn Atodlenni 4 i 7 yn anghywir.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Rydym yn cwestiynu a ddylai'r cyfeiriad yn rheoliad 9(2) fod at adran 76(3) o'r Ddeddf, yn hytrach nag adran 76(4) o'r Ddeddf. Mae Adran 76(3) yn cyfeirio at yr awdurdod lleol yn dyfarnu swm y ffi cydymffurfio a godir, gan roi sylw i'r costau y mae'r awdurdod yn mynd iddynt neu y disgwylir i'r awdurdod fynd iddynt.

7. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau, sy'n nodi ffurf y cais am drwydded triniaeth arbennig, mae cwestiwn 1.2 yn gofyn pryd y mae'r ceisydd am i'r drwydded triniaeth arbennig ddechrau, gyda 'cyn gynted â phosibl' yn opsiwn. Mae rheoliad 3(3) yn nodi, yn achos trwydded dros dro, fod rhaid gwneud cais o leiaf 28 o ddiwrnodau gwaith cyn y dyddiad dechrau arfaethedig ar gyfer y drwydded dros dro, y gallai fod wedi bod yn ddefnyddiol cynnwys yr wybodaeth hon ar y ffurflen gais neu mewn nodyn cyfarwyddyd.

8. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau, mae cwestiwn 5.1 yn gofyn os cyflwynwyd hysbysiad i geisydd o dan adran 61(1) o'r Ddeddf ac mae'n cyfeirio at "*special procedure licence*," yn Saesneg. Mae fersiwn Gymraeg y ffurflen yn darllen "*trwydded **gweithred** arbennig*". Fodd bynnag, y cyfieithiad a ddefnyddir yn y Rheoliadau ac yn y Ddeddf yw "*trwydded **triniaeth** arbennig*" (pwyslais wedi'i ychwanegu).

9. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau, mae Nodyn Cyfarwyddyd 1 yn nodi:

> *(b) os yw'r ceisydd yn credu bod y driniaeth arbennig yn debygol o gael ei chyflawni gan y ceisydd yn ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol, mae cais i'w wneud i un o'r awdurdodau lleol hynny.*

Nid yw'n glir a yw'n ofynnol i'r ceisydd nodi enwau'r holl awdurdodau y mae'n disgwyl rhoi'r driniaeth arbennig yn eu hardaloedd ar y ffurflen gais.

10. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau, mae Nodyn Cyfarwyddyd 5 yn cynghori ceiswyr i droi at y canllawiau anstatudol os nad ydynt yn siŵr ar ba "sail" y maent yn rhoi triniaethau arbennig. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru gadarnhau at ba ganllawiau y mae'n cyfeirio. Byddai'n fwy o gymorth i geiswyr pe bai'r canllawiau'n cael eu henwi.

11. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae'n ofynnol i geiswyr ddatgelu euogfarnau heb eu disbyddu am "droseddau perthnasol" mewn cais am drwydded triniaeth arbennig. Yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau, mae Nodyn Cyfarwyddyd 8 "*Euogfarnau am droseddau perthnasol*" yn datgan bod yr hyn a ystyrir yn drosedd berthnasol wedi'i nodi yn adran 66 o'r Ddeddf. O ystyried pwysigrwydd yr wybodaeth hon, byddai nodi'r troseddau perthnasol yn y nodiadau cyfarwyddyd yn fwy o gymorth i geisydd sydd wrthi'n llenwi'r ffurflen gais.

**12. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn yr ail Atodlen 2, ar Ran 2 o'r drwydded triniaeth arbennig, mae'r Saesneg yn darllen "*Approved premises and/or vehicle*" tra bod y fersiwn Gymraeg yn cyfeirio at "*gerbydau*" yn y lluosog. Dyma sydd yn fersiynau Cymraeg a Saesneg y Rheoliadau.

**13. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae paragraff 2(4) o Atodlen 3 i'r Rheoliadau yn nodi:

> *Mewn achos pan fo'r drwydded triniaeth arbennig wedi mynd ar goll, wedi cael ei dwyn neu wedi cael ei difrodi, rhaid i ddeiliad y drwydded wneud cais, o fewn cyfnod rhesymol, i gael un newydd yn ei lle oddi wrth yr awdurdod lleol sy'n dyroddi.*

Byddai pennu cyfnod penodol o amser ar gyfer cael un newydd yn ei le, neu roi arweiniad ar yr hyn a ystyrir yn gyfnod rhesymol, yn rhoi mwy o eglurder i ddeiliad y drwydded.

**14. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae paragraff 4 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y drwydded gadw a chynnal cofrestr o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â rhoi triniaethau arbennig gan ddeiliad y drwydded. Rhaid i ddeiliad y drwydded gofrestru digwyddiadau o'r fath hefyd. A yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod drafftio'r amod mandadol hwn yn ddigon clir, ac a fyddai deiliad y drwydded yn gallu nodi beth fyddai'n gyfystyr â 'digwyddiad' ac yn gwybod sut i gofrestru digwyddiad o'r fath?

**15. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Ym mharagraff 6(2) o Atodlen 3 i'r Rheoliadau, yn y cyfieithiad Cymraeg o'r geiriau "*contamination from blood or bodily fluids are likely*", mae'r gair "*corfforol" ar goll ar ôl y gair "hylifau": "halogiad gan waed neu hylifau yn debygol."*

**16. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae Atodlenni 3 i 7 i'r Rheoliadau yn nodi'r amodau trwyddedu mandadol sydd i fod yn gymwys i drwyddedau triniaeth arbennig at ddibenion adran 63 o'r Ddeddf. Rhaid i'r amodau trwyddedu mandadol hyn fod "*ar gael yn rhwydd ar gais*" gan gleient.

Nodwn fod diffiniadau wedi'u cynnwys yn yr Atodlenni, ond nid yw llawer o'r diffiniadau hyn yn cynorthwyo'r darllenydd i ddeall yr amodau trwyddedu mandadol, gan eu bod yn cyfeirio at adrannau o'r Ddeddf yn unig. Mae cynnwys y diffiniadau ar ddiwedd yr Atodlenni hefyd yn rhwystro eu hygyrchedd.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**17. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Rheoliad 4(2) yn nodi'r meini prawf trwyddedu y mae rhaid eu bodloni gan geisydd ar gyfer trwydded triniaeth arbennig er mwyn i'r cais gael ei ganiatáu. Mae'r meini prawf yn cynnwys darparu tystiolaeth o wiriad cofnod troseddol.

Mae'r ffurflen gais ar gyfer trwydded triniaeth arbennig, fel y nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau, yn gofyn yn 2.12 a yw'r ceisydd yn gymwys i gael tystysgrif datgeliad sylfaenol a ddyroddwyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, tystysgrif cofnod troseddol dramor, neu'r ddau. Mae hefyd yn ofynnol i'r ceisydd dicio blwch yn cadarnhau hynny: *"Mae tystiolaeth o dystysgrif datgeliad sylfaenol/tystysgrif cofnod troseddol dramor wedi ei hamgáu*".

Mae Nodyn Cyfarwyddyd 8 ar y ffurflen gais yn nodi y bydd tystysgrif datgeliad sylfaenol yn dangos euogfarnau heb eu disbyddu a rhybuddiadau amodol ceisydd.

Teitl Rhan 4 y ffurflen gais yw "*Euogfarnau am droseddau perthnasol*" pan fo'n ofynnol i geisydd ddatgan a oes ganddo euogfarn heb ei disbyddu am drosedd berthnasol a darparu gwybodaeth am unrhyw droseddau perthnasol. Diffinnir trosedd berthnasol yn adran 66(8) o'r Ddeddf fel:

> (a) trosedd o dan y Rhan hon neu o dan Ran 5 (rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff);
>
> (b) trosedd (pa un ai o dan gyfraith Cymru a Lloegr neu rywle arall) sydd)—
>
>> (i) yn ymwneud â thrais,
>>
>> (ii) o natur rywiol, neu sy'n ymwneud â deunydd neu ddelweddau rhywiol,
>>
>> (iii) yn golygu tatŵio plentyn o dan 18 oed,
>>
>> (iv) yn ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y gwaith, neu
>>
>> (v) yn golygu methiant i gydymffurfio â gofyniad mewn cynllun ar gyfer trwyddedu neu fel arall ganiatáu neu reoleiddio cyflawni gweithgaredd sy'n driniaeth arbennig at ddibenion y Ddeddf hon.

O dan adran 66 o'r Ddeddf, pan fo ceisydd wedi ei euogfarnu o drosedd berthnasol, rhaid i awdurdod lleol benderfynu a oes amheuaeth wedi ei chodi ynghylch addasrwydd y ceisydd i roi triniaeth y mae'r cais yn ymwneud â hi i'r graddau y byddai'n amhriodol dyroddi'r drwydded mewn cysylltiad â rhoi'r driniaeth honno.

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pam mae'n ystyried ei gwneud yn ofynnol i geiswyr am drwydded triniaeth arbennig gyflwyno gwiriad cofnod troseddol (a fyddai'n dangos euogfarnau heb eu disbyddu a rhybuddiadau amodol ceisydd, gan gynnwys y rheini nad ydynt

yn droseddau perthnasol) ac a yw'n ddull cymesur o gadarnhau a oes gan geisydd euogfarnau heb eu disbyddu am droseddau perthnasol. A ystyriwyd unrhyw ddulliau amgen o gadarnhau a oes gan geisydd euogfarnau heb eu disbyddu am droseddau perthnasol?

At hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

> *4.16 Mae'r Ddeddf yn darparu i bob ceisydd am drwydded triniaeth arbennig ddatgan unrhyw euogfarnau heb eu disbyddu am 'droseddau perthnasol' fel rhan o'r broses ymgeisio ac i gyflwyno tystysgrif ddiweddar gan y Gwasanaeth Datgelu a gwahardd (DBS).*

Mae'r datganiad hwn yn awgrymu bod darpariaethau o'r fath wedi'u nodi yn y Ddeddf ei hun. A all Llywodraeth Cymru egluro'r datganiad hwn?

**18. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 y Cydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017. Disgwylir i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ar 29 Tachwedd 2024. Mae hyn yn golygu y bydd cyfnod o fwy na 7 mlynedd wedi mynd heibio erbyn i'r rheolau newydd ar driniaethau arbennig gael eu gweithredu.

Yn 2017, roedd y Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn nodi'r "risgiau iechyd hysbys, a rhai yr adroddir digon amdanynt, sy'n gysylltiedig â" thriniaethau arbennig a'r "cymhlethdodau a allai godi" gyda thriniaethau arbennig .[1]

Yn ogystal, cyfeiriodd y Memorandwm Esboniadol i'r Bil at y ffaith bod y ddeddfwriaeth gyfredol yn "annigonol i amddiffyn y cyhoedd yn ddigonol".[2] Roedd y Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi'r costau y mae'r GIG yn eu hysgwyddo o dan y drefn bresennol: "Mantais bennaf y system drwyddedu yw arbed arian i'r GIG, o ran costau triniaethau, a gwella iechyd yr unigolyn."[3]

Yn ogystal, mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn dweud bod y broses o orfodi'r rheolau presennol wedi bod yn anghyson. Mae'n nodi nad yw is-ddeddfau enghreifftiol Llywodraeth Cymru, a gafodd eu llunio gyda'r bwriad o fynd i'r afael ag anghysondebau hanesyddol yn y maes hwn, wedi cael eu mabwysiadu gan nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n ychwanegu nad yw awdurdodau lleol yn debygol o'u mabwysiadu, "gan eu bod wedi bod yn aros, ers i'r Ddeddf gael ei phasio yn 2017, am greu'r cynllun trwyddedu mandadol ar gyfer triniaethau arbennig".[4]

O ystyried y pwyntiau uchod, nid yw'n glir pam mae cyfnod o fwy na saith mlynedd wedi mynd heibio cyn i'r rheolau newydd ar driniaethau arbennig a nodir yn Neddf 2017 gael eu gweithredu.

---

[1]Gweler paragraffau 116 a 117 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).
[2]Gweler paragraff 616 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).
[3]Gweler paragraff 614 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).
[4] Gweler paragraff 4.7 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn.

**19. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi'r dyfyniadau canlynol o'r Memorandwm Esboniadol ynghylch yr ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Rheoliadau:

> *5.2. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar egwyddorion y cynllun trwyddedu triniaeth arbennig (y cyfeirir ato yma fel yr 'ymgynghoriad cyntaf') er mwyn llywio Rheoliadau drafft a fyddai'n galluogi cychwyn darpariaethau Rhan 4 o'r Ddeddf ac Atodlen 3 iddi. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad 12 wythnos hwnnw rhwng 25 Ionawr a 19 Ebrill 2023 ac roedd y fersiwn ddrafft o'r RIA yn rhan o'r deunyddiau ymgynghori ynghyd ag Asesiad Effaith Integredig. […]*
>
> *5.9. Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach (y cyfeirir ato wedi hyn fel yr 'ail ymgynghoriad') am wyth wythnos rhwng 12 Chwefror ac 8 Ebrill 2024 ac yn dilyn yr ymgynghoriad cyntaf y cyfeirir ato uchod.*
>
> *5.10. Gan fod ymgynghoriad wedi bod eisoes ar y cynigion polisi ar gyfer y cynllun trwyddedu mandadol, bernid mai ymgynghoriad technegol oedd yr ail ymgynghoriad hwn a hynny yn benodol ar eiriad y Rheoliadau drafft a'r Canllawiau Statudol drafft, er bod y Rheoliadau drafft yn rhoi manylion pellach am y cynllun newydd, gan gynnwys y pynciau hynny lle'r oedd y ddyletswydd statudol i ymgynghori o dan adran 64 o'r Ddeddf yn gymwys. I'r perwyl hwn, rhoddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei chydsyniad i'r ymgynghoriad redeg am wyth wythnos yn lle'r cyfnod safonol o 12 wythnos.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i bob pwynt ac eithrio'r pwynt olaf o ran rhinweddau.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**25 Medi 2024**

# SL(6)525 – Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Tyllu'r Corff (Triniaethau Arbennig) (Cymru) 2024

## Cefndir a diben

Mae Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") yn sefydlu cynllun trwyddedu mandadol i unigolion sy'n dymuno rhoi triniaethau arbennig yng Nghymru. Mae adran 57 o'r Ddeddf yn darparu bod "tyllu'r corff" yn driniaeth arbennig at ddibenion Rhan 4.

Mae'r diffiniad o "tyllu'r corff" wedi ei ddarparu yn adran 94(1) o'r Ddeddf a'i ystyr yw gwneud trydylliad yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn, gyda golwg ar alluogi i emwaith neu wrthrych o ddisgrifiad a ragnodir mewn rheoliadau neu o dan reoliadau gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o gorff yr unigolyn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi y bydd unrhyw wrthrych nad yw'n emwaith (er enghraifft bachau, angorau macrogroenol, angorau microgroenol, microsglodion cyfathrebu agosfaes, gleiniau silicon) yn dod o fewn y diffiniad o dyllu'r corff at ddibenion Rhan 4 o'r Ddeddf.

Mae hyn yn golygu y bydd yn ofynnol i'r unigolion hynny sy'n rhoi triniaeth tyllu'r corff gyda golwg ar alluogi i emwaith, neu unrhyw wrthrych, gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o gorff yr unigolyn, gael trwydded triniaeth arbennig o dan Ran 4 o'r Ddeddf (oni bai eu bod wedi eu hesemptio).

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 y Cydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017. Bydd y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 29 Tachwedd 2024. Mae hyn yn golygu y bydd cyfnod o fwy na 7 mlynedd wedi mynd heibio erbyn i'r rheolau newydd ar driniaethau arbennig gael eu gweithredu.

Yn 2017, roedd y Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn nodi'r "risgiau iechyd hysbys, a rhai yr adroddir digon amdanynt, sy'n gysylltiedig â" thriniaethau arbennig, a'r "cymhlethdodau a allai godi" mewn perthynas â thriniaethau arbennig.[1]

Yn ogystal, cyfeiriodd y Memorandwm Esboniadol i'r Bil at y ffaith bod y ddeddfwriaeth gyfredol yn "annigonol i amddiffyn y cyhoedd yn ddigonol".[2] Roedd y Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi'r costau y mae'r GIG yn eu hysgwyddo o dan y drefn bresennol: "Mantais bennaf y system drwyddedu yw arbed arian i'r GIG, o ran costau triniaethau, a gwella iechyd yr unigolyn."[3]

Yn ogystal, mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn dweud bod y broses o orfodi'r rheolau presennol wedi bod yn anghyson. Mae'n nodi nad yw is-ddeddfau enghreifftiol Llywodraeth Cymru, a gafodd eu llunio gyda'r bwriad o fynd i'r afael ag anghysondebau hanesyddol yn y maes hwn, wedi cael eu mabwysiadu gan nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n ychwanegu nad yw awdurdodau lleol yn debygol o'u mabwysiadu, "gan eu bod wedi bod yn aros, ers i'r Ddeddf gael ei phasio yn 2017, am greu'r cynllun trwyddedu mandadol ar gyfer triniaethau arbennig".[4]

Daeth Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Rhoi Twll mewn Rhan Bersonol o'r Corff (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019") i rym ar 1 Awst 2019. Roedd Rheoliadau 2019 yn rhagnodi "unrhyw wrthrych nad yw'n emwaith" fel gwrthrych at ddibenion y diffiniad o "tyllu'r corff" yn adran 94(1) o'r Ddeddf, ond dim ond i'r graddau y mae'r diffiniad hwnnw'n gymwys at ddibenion y drosedd yn adran 95 o'r Ddeddf (rhoi neu wneud trefniadau i roi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn). Nododd y cyn Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y "gallai'r risgiau i iechyd sy'n gysylltiedig â thyllu'r corff â gwrthrychau nad ydynt yn emwaith, yn dibynnu ar y gwrthrych, fod yn fwy difrifol na thyllu â gemwaith".[5]

O ystyried y pwyntiau uchod, nid yw'n glir pam mae cyfnod o fwy na saith mlynedd wedi mynd heibio cyn i'r rheolau newydd ar driniaethau arbennig a nodir yn Neddf 2017 gael eu gweithredu.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwynt rhinweddau.

---

[1]Gweler paragraffau 116 a 117 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).
[2]Gweler paragraff 616 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).
[3]Gweler paragraff 614 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).
[4] Gweler paragraff 4.7 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn.
[5] Paragraff 361 o Gofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn 9 Gorffennaf 2019.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**23 Medi 2024**

# SL(6)526 – Rheoliadau Unigolion sydd wedi eu Hesemptio o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Mae Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") yn sefydlu cynllun trwyddedu mandadol i unigolion sy'n dymuno rhoi triniaethau arbennig yng Nghymru. Mae'r triniaethau arbennig hynny fel a ganlyn:

- aciwbigo,
- tyllu'r corff,
- electrolysis,
- tatŵio.

Rhaid i unigolyn sy'n rhoi triniaeth arbennig i rywun arall, yng nghwrs busnes,[1] gael ei drwyddedu, oni bai ei fod wedi'i esemptio.

O dan adran 60 o Ddeddf 2017, caiff aelodau o broffesiynau penodol eu trin fel unigolion sydd wedi'u hesemptio. Er enghraifft, mae meddygon, deintyddion, optegwyr a fferyllwyr wedi'u hesemptio rhag y gofyniad i gael trwydded. Fodd bynnag, caiff rheoliadau nodi rhagor o fanylion am hyd a lled yr esemptiadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi rhagor o fanylion am hyd a lled yr esemptiadau. Er enghraifft, mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys y darpariaethau a ganlyn:

- nid yw fferyllydd wedi'i esemptio, ac mae angen trwydded arno i roi unrhyw driniaeth arbennig;

- nid yw nyrs gofrestredig wedi'i hesemptio, ac mae angen trwydded arni i roi unrhyw driniaeth arbennig, oni bai bod y nyrs yn rhoi'r driniaeth arbennig mewn sefydliad gofal iechyd annibynnol a reoleiddir (megis ysbyty annibynnol), ac nad yw'n ddarostyngedig i unrhyw amodau, cyfyngiadau na sancsiynau ar ei chofrestriad proffesiynol, mewn perthynas â'i haddasrwydd i ymarfer;

- nid yw ceiropractydd wedi'i esemptio o ran rhoi triniaeth arbennig ym maes aciwbigo; felly, mae angen trwydded arno i roi triniaeth ym maes aciwbigo.

- mae ffisiotherapydd wedi'i esemptio o ran rhoi triniaeth ym maes aciwbigo, cyn belled â'i fod yn rhoi'r driniaeth honno mewn sefydliad gofal iechyd annibynnol a reoleiddir (megis ysbyty annibynnol), ac nad yw'n ddarostyngedig i unrhyw amodau, cyfyngiadau na sancsiynau ar ei gofrestriad proffesiynol, mewn perthynas â'i addasrwydd i ymarfer;

[1] Nid yw triniaethau arbennig sy'n cael eu rhoi fel rhan o driniaeth y GIG mewn lleoliad y GIG yn dod o fewn cwmpas y cynllun trwyddedu newydd.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae'r diffiniad o "fferyllydd" wedi'i rannu'n ddau: diffiniad ar gyfer fferyllwyr sy'n cael eu rheoleiddio gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, a diffiniad ar gyfer fferyllwyr sy'n cael eu rheoleiddio gan Gymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon.

Fodd bynnag, dim ond at fyfyrwyr-fferyllwyr sy'n cael eu rheoleiddio gan Gymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon y mae'r diffiniad o "fyfyriwr-fferyllydd" yn cyfeirio.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru gadarnhau bod y diffiniad o "fyfyriwr-fferyllydd" yn gywir, yn bennaf yn sgil y ffaith bod y diffiniad yn cyfeirio at y diffiniad sy'n gymwys "mewn perthynas â Gogledd Iwerddon", sy'n codi'r cwestiwn: a ddylid cael diffiniad sy'n gymwys "mewn perthynas â Phrydain Fawr"?

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 y Cydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017. Disgwylir i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ar 29 Tachwedd 2024. Mae hyn yn golygu y bydd cyfnod o fwy na 7 mlynedd wedi mynd heibio erbyn i'r rheolau newydd ar driniaethau arbennig gael eu gweithredu.

Yn 2017, roedd y Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn nodi'r "risgiau iechyd hysbys, a rhai yr adroddir digon amdanynt, sy'n gysylltiedig

â" thriniaethau arbennig, a'r "cymhlethdodau a allai godi" mewn perthynas â thriniaethau arbennig.[2]

Yn ogystal, cyfeiriodd y Memorandwm Esboniadol i'r Bil at y ffaith bod y ddeddfwriaeth gyfredol yn "annigonol i amddiffyn y cyhoedd yn ddigonol".[3] Roedd y Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi'r costau y mae'r GIG yn eu hysgwyddo o dan y drefn bresennol: "Mantais bennaf y system drwyddedu yw arbed arian i'r GIG, o ran costau triniaethau, a gwella iechyd yr unigolyn."[4]

Yn ogystal, mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn dweud bod y broses o orfodi'r rheolau presennol wedi bod yn anghyson. Mae'n nodi nad yw is-ddeddfau enghreifftiol Llywodraeth Cymru, a gafodd eu llunio gyda'r bwriad o fynd i'r afael ag anghysondebau hanesyddol yn y maes hwn, wedi cael eu mabwysiadu gan nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n ychwanegu nad yw awdurdodau lleol yn debygol o'u mabwysiadu, "gan eu bod wedi bod yn aros, ers i'r Ddeddf gael ei phasio yn 2017, am greu'r cynllun trwyddedu mandadol ar gyfer triniaethau arbennig".[5]

O ystyried y pwyntiau uchod, nid yw'n glir pam mae cyfnod o fwy na saith mlynedd wedi mynd heibio cyn i'r rheolau newydd ar driniaethau arbennig a nodir yn Neddf 2017 gael eu gweithredu.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r ddau bwynt hyn.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**23 Medi 2024**

---

[2]Gweler paragraffau 116 a 117 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).
[3]Gweler paragraff 616 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).
[4]Gweler paragraff 614 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).
[5] Gweler paragraff 4.7 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn.

# SL(6)527 – Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024

## Cefndir a diben

Mae Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("**y Ddeddf**") yn sefydlu cynllun trwyddedu mandadol i unigolion sy'n dymuno rhoi triniaethau arbennig yng Nghymru. Y triniaethau arbennig hynny yw:

- aciwbigo
- tyllu'r corff
- electrolysis
- tatŵio

O dan y cynllun trwyddedu newydd, rhaid i unigolyn sy'n rhoi triniaeth arbennig i rywun arall, yng nghwrs busnes, fod wedi'i drwyddedu, oni bai ei fod wedi'i esemptio.

Yn ogystal, rhaid i driniaethau arbennig gael eu rhoi mewn mangre neu mewn cerbyd a gymeradwywyd gan awdurdod lleol at y diben hwnnw oni bai bod y fangre honno neu'r cerbyd hwnnw wedi'i hesemptio neu wedi'i esemptio. Os yw awdurdod lleol wedi'i fodloni bod y fangre neu'r cerbyd yn bodloni'r gofynion ar gyfer eu cymeradwyo, bydd yn rhoi tystysgrif gymeradwyo yn awdurdodi'r gymeradwyaeth honno.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â mangreoedd a cherbydau o'r fath, gan gynnwys:

- y meini prawf y mae rhaid eu bodloni er mwyn i dystysgrif gymeradwyo newydd gael ei rhoi, a'r ffurflen gais sydd i'w defnyddio;
- ffurf y dystysgrif gymeradwyo ar ôl i gymeradwyaeth gael ei rhoi a'r amodau mandadol y bydd tystysgrif gymeradwyo yn ddarostyngedig iddynt;
- y mangreoedd a'r cerbydau a fydd wedi'u hesemptio rhag y gofyniad i gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol;
- darpariaeth mewn perthynas ag amrywiadau ar dystysgrifau cymeradwyo, eu terfynu'n wirfoddol, eu hadnewyddu a chael copïau newydd ohonynt;
- darpariaeth ar gyfer ffioedd mewn perthynas â thystysgrifau cymeradwyo;
- yr hyn y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ei wneud os yw'n bwriadu gwrthod cais, a hawl y ceisydd i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod lleol; a
- y broses apelio mewn perthynas â cheisiadau sy'n cael eu gwrthod.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y saith pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae Rhan 7 o'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag amrywio tystysgrifau cymeradwyo.

Os oes cais i amrywio tystysgrif gymeradwyo bresennol wedi'i wneud, rhaid i'r awdurdod lleol perthnasol naill ai ganiatáu neu wrthod y cais. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod gwaith drafftio rheoliadau 15(2) a 15(3) yn creu rhywfaint o amwysedd. Mae rheoliad 15(2) yn dweud:

> *Os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod cais i amrywio yn unol â Rhan 7 wedi ei wneud, rhaid i'r awdurdod lleol ganiatáu'r cais i amrywio tystysgrif gymeradwyo a dyroddi'r dystysgrif gymeradwyo wedi ei hamrywio i ddeiliad y dystysgrif.*

O'i ddehongli'n eang, gellid deall hyn fel dyletswydd ar yr awdurdod lleol i ganiatáu amrywiad, dim ond am fod cais i amrywio wedi'i wneud (er nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion neu'r amodau yn Rhan 7).

Gellir cyferbynnu hyn â rheoliadau 9(2) ac 21(2) sydd wedi'u drafftio'n fwy eglur o lawer:

> *Os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod **yr holl feini prawf cymeradwyo a nodir yn rheoliad [8 ac 20]** wedi eu bodloni, rhaid i'r awdurdod lleol ganiatáu'r cais am dystysgrif gymeradwyo a dyroddi tystysgrif gymeradwyo i'r ceisydd, sy'n cymeradwyo mangre neu gerbyd mewn cysylltiad â rhoi triniaeth arbennig.*

Yn ein barn ni, byddai gwaith drafftio rheoliadau 15(2) a 15(3) yn fwy eglur o'i ddiwygio yn unol â rheoliadau 9(2) ac 21(2).

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae Rhan 11 o'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â therfynu tystysgrifau cymeradwyo mangreoedd neu gerbydau yn wirfoddol gan ddeiliaid tystysgrif.

Mae rheoliad 29(g) yn darparu bod rhaid i ddeiliad tystysgrif sy'n bwriadu terfynu tystysgrif gymeradwyo yn wirfoddol ddarparu i'r awdurdod lleol:

> *"enw **unrhyw bersonau** y mae deiliad y dystysgrif yn meddwl bod yr hysbysiad yn debygol o effeithio arnynt."* [ychwanegwyd y pwyslais]

Mae'r ddarpariaeth hon yn gosod gofyniad eang ar ddeiliaid tystysgrif. A all Llywodraeth Cymru gadarnhau'r rhesymeg sydd wrth wraidd rheoliad 29(g)?

At hynny, mae'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn hysbysiad terfynu gwirfoddol yn gymharol fanwl a helaeth. A wnaeth Llywodraeth Cymru ystyried ychwanegu Atodlen at y Rheoliadau gyda 'hysbysiad' enghreifftiol i'w ddefnyddio gan ddeiliaid tystysgrif o dan yr amgylchiadau hyn?

3. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn y ffurflen gais am dystysgrif gymeradwyo a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau, rhaid i'r ceisydd nodi enw'r awdurdod dyroddi perthnasol. I gynorthwyo'r ceisydd, mae nodyn cyfarwyddyd 1 yn nodi:

> *Wrth wneud cais am dystysgrif gymeradwyo—*
>
> *(a) […]*
>
> *(b) os ystyrir bod y cerbyd yn cael ei yrru, ei ddefnyddio neu ei gadw yn ardal yr awdurdod lleol, neu ei fod yn debygol o gael ei yrru, ei ddefnyddio neu ei gadw yn ardal yr awdurdod hwnnw, mae cais i'w wneud i'r awdurdod lleol hwnnw.*

Yn ôl yr hyn a ddeallwn, mae tystysgrif gymeradwyo a ddyroddir gan un awdurdod lleol yn caniatáu i ddeiliad y dystysgrif ddefnyddio cerbyd i roi triniaethau arbennig yn unrhyw le yng Nghymru (fel y nodir yn nodyn cyfarwyddyd 10).

Hynny yw, nid oes angen i geiswyr gael tystysgrifau cymeradwyo ar wahân ar gyfer pob awdurdod lleol lle y gallai eu cerbyd gael ei yrru a'i ddefnyddio i roi triniaethau arbennig.

A thybio bod hyn yn gywir, rydym o'r farn y byddai'n ddefnyddiol diweddaru nodyn cyfarwyddyd 1 i egluro'r pwynt hwn er budd y rhai sy'n llenwi'r ffurflen gais.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae Atodlen 1 i'r Rheoliadau yn cynnwys ffurflen safonol 'Ffurf y cais am dystysgrif gymeradwyo'. Darperir nodiadau cyfarwyddyd i gynorthwyo ceiswyr i lenwi'r ffurflen.

Mae nodyn cyfarwyddyd 12 yn ymwneud ag Adran 5.2 o Ran 5 o'r ffurflen. Mae'n dweud:

> *Ystyr rhif y drwydded yw'r cyfeirnod a roddir gan yr awdurdod lleol i'r* ***dystysgrif gymeradwyo*** *sy'n unigryw i'r* ***dystysgrif*** *honno ac a bennir ynddi.*

O ystyried cyd-destun Adran 5.2 o Ran 5, ymddengys y dylai'r cyfeiriad a danlinellir uchod gyfeirio at '*drwydded triniaeth arbennig*', yn hytrach nag at '*dystysgrif gymeradwyo*'. Ymddengys hefyd y dylai "*dystysgrif*" ddweud "*drwydded*".

Yn ôl yr hyn a ddeallwn, dim ond yng nghyd-destun mangreoedd a cherbydau y mae'r term '*tystysgrif gymeradwyo*' yn gymwys, yn hytrach nag yng nghyd-destun personau trwyddedig.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Mae rheoliad 8 yn darparu ar gyfer y meini prawf sydd i'w cymhwyso wrth roi tystysgrifau cymeradwyo.

Mae testun Saesneg rheoliad 8(2)(b) yn dweud bod rhaid i geisydd "*provide evidence that the applicant holds a regulated Level 2 Award [in 'Infection Prevention and Control for Special Procedures Practitioners']*".

Mae'r cyfieithiad yn dweud bod rhaid i'r ceisydd:

> "*darparu tystiolaeth bod y ceisydd yn meddu ar Ddyfarniad Lefel 2 a reoleiddir* ***yn llwyddiannus***" [ychwanegwyd y pwyslais].

Ymddengys bod y geiriau "*yn llwyddiannus*" yn y testun Cymraeg yn ddiangen ac yn anghyson â'r testun Saesneg.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae nodyn cyfarwyddyd 6 yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau yn diffinio'r term '*gweithfan*' i gynorthwyo ceiswyr i lenwi'r ffurflen gais am dystysgrif gymeradwyo.

Mae'r nodyn cyfarwyddyd yn egluro y dylai'r ceisydd sicrhau bod digon o le rhwng pob gweithfan er mwyn galluogi rhoi'r driniaeth arbennig yn ddiogel ac yn hylan. Dywed y frawddeg olaf:

*Gweler y cyfarwyddyd anstatudol am ragor o wybodaeth.*

Nid yw'r nodyn cyfarwyddyd yn darparu linc i'r 'cyfarwyddyd anstatudol', ac nid yw'n glir at ba adnodd yn benodol y mae hyn yn cyfeirio.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau hyn, ac ystyried diweddaru nodyn cyfarwyddyd 6 i gyfeirio ceiswyr at y cyfarwyddyd perthnasol.

**7. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae Atodlenni 3 a 4 i'r Rheoliadau yn cynnwys yr amodau cymeradwyo mandadol sy'n gymwys i dystysgrifau cymeradwyo a thystysgrifau cymeradwyo dros dro, yn y drefn honno.

Dyroddir tystysgrifau cymeradwyo yn ddarostyngedig i'r amodau cymeradwyo mandadol. Rhaid arddangos tystysgrifau cymeradwyo mewn mangreoedd a cherbydau, a rhaid i gopi o'r amodau cymeradwyo mandadol fod "*ar gael yn rhwydd i'w arolygu ar gais*" gan swyddogion awdurdodedig a chleientiaid.

Nodwn nad yw termau allweddol megis "deiliad tystysgrif", "triniaeth arbennig", "deiliad trwydded", "mangre a gymeradwywyd", "trwydded triniaeth arbennig" wedi'u diffinio yn yr amodau cymeradwyo mandadol.

Felly, pe bai cleient lleyg yn gofyn am gael gweld yr amodau cymeradwyo mandadol, byddai'r derminoleg yn ddyrys.

Nodwn fod adran ddiffiniadau ar ddiwedd yr Atodlenni. Fodd bynnag, yn ein barn ni, byddai'r amodau'n fwy hygyrch pe baent yn cynnwys adran ar y dechrau i egluro'r termau allweddol mewn iaith glir yn arddull contract defnyddwyr modern.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**8. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 y Cydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 29 Tachwedd 2024. Mae hyn yn golygu y bydd cyfnod o fwy na 7 mlynedd wedi mynd heibio cyn i'r rheolau newydd ar fangreoedd a cherbydau a gymeradwywyd gael eu gweithredu.

Yn 2017, roedd y Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn nodi'r "*risgiau iechyd hysbys, a rhai yr adroddir digon amdanynt, sy'n gysylltiedig â*" thriniaethau arbennig, a'r "*cymhlethdodau a allai godi*" mewn perthynas â thriniaethau arbennig.

Yn ogystal, roedd y Memorandwm Esboniadol i'r Bil yn cyfeirio at y ffaith bod y ddeddfwriaeth bresennol yn "*annigonol i amddiffyn y cyhoedd yn ddigonol*". Roedd y Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi'r costau i'r GIG o dan y drefn bresennol: "Mantais bennaf y system drwyddedu yw arbed arian i'r GIG, o ran costau triniaethau, a gwella iechyd yr unigolyn".

O ystyried y pwyntiau uchod, nid yw'n glir pam y mae cyfnod o fwy na saith mlynedd wedi mynd heibio cyn i'r rheolau newydd ar fangreoedd a cherbydau a gymeradwywyd a nodir yn Neddf 2017 gael eu gweithredu.

**9. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y dyfyniadau a ganlyn o'r Memorandwm Esboniadol ynghylch yr ymgynghori a fu mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn:

> *5.2. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar egwyddorion y cynllun trwyddedu triniaeth arbennig (y cyfeirir ato yma fel yr 'ymgynghoriad cyntaf') er mwyn llywio Rheoliadau drafft a fyddai'n galluogi cychwyn darpariaethau Rhan 4 o'r Ddeddf ac Atodlen 3 iddi. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad 12 wythnos hwnnw rhwng 25 Ionawr a 19 Ebrill 2023 ac roedd y fersiwn ddrafft o'r RIA yn rhan o'r deunyddiau ymgynghori ynghyd ag Asesiad Effaith Integredig. […]*
>
> *5.9. Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach (y cyfeirir ato wedi hyn fel yr 'ail ymgynghoriad') am wyth wythnos rhwng 12 Chwefror ac 8 Ebrill 2024 ac yn dilyn yr ymgynghoriad cyntaf y cyfeirir ato uchod.*
>
> *5.10. Gan fod ymgynghoriad wedi bod eisoes ar y cynigion polisi ar gyfer y cynllun trwyddedu mandadol, bernid mai ymgynghoriad technegol oedd yr ail ymgynghoriad hwn a hynny yn benodol ar eiriad y Rheoliadau drafft a'r Canllawiau Statudol drafft, er bod y Rheoliadau drafft yn rhoi manylion pellach am y cynllun newydd, gan gynnwys y pynciau hynny lle'r oedd y ddyletswydd statudol i ymgynghori o dan adran 64 o'r Ddeddf yn gymwys. I'r perwyl hwn, rhoddodd y Gweinidog* [sic] *Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei chydsyniad i'r ymgynghoriad redeg am wyth wythnos yn lle'r cyfnod safonol o 12 wythnos.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i bob pwynt ac eithrio'r pwynt olaf o ran rhinweddau.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**24 Medi 2024**

# SL(6)507 - Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch datrys anghydfodau mewn perthynas â chydsyniad y landlord ac amrywiadau i delerau contract tenantiaeth ar gyfer tenantiaeth busnes fferm o dan  Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 ("Deddf 1995").

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau rhagarweiniol.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn caniatáu i denant atgyfeirio cais i gymrodeddu pan fo cydsyniad y landlord neu amrywiad i delerau contract tenantiaeth ar gyfer tenantiaeth busnes fferm o dan Ddeddf 1995 yn ofynnol naill ai i alluogi tenant i ofyn am gymorth ariannol perthnasol neu i wneud cais am gymorth o'r fath o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, neu er mwyn bodloni dyletswydd statudol.

Mae Rhan 3 yn darparu ar gyfer adolygiad o'r Rheoliadau hyn erbyn 13 Mehefin 2031 ac ar ysbeidiau heb fod yn hwy na 5 mlynedd wedi hynny.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y saith pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 2, diffinnir y term "tenantiaeth busnes fferm" a'r term "dyletswydd statudol" i fod ag ystyr "Yn y Rheoliadau hyn". Ond dim ond yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn y defnyddir y termau hyn. Felly, dylai'r diffiniadau o'r termau hynny ymddangos yn rheoliad 3 fel yr argymhellwyd gan ganllawiau drafftio Llywodraeth Cymru – gweler Drafftio Deddfau i Gymru 4.14(1).

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o "cymorth ariannol perthnasol", ym mharagraff (a), mae cyfeiriad at "adran 8 o **Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023**". Fodd bynnag, mae'r Ddeddf honno wedi'i diffinio fel "Deddf 2023" yn y Rheoliadau hyn. Mae hefyd yn golygu bod paragraff (a) yn anghyson â'r paragraffau dilynol yn y diffiniad hwnnw pan fo'r term diffiniedig wedi'i ddefnyddio'n gywir wrth gyfeirio at y Ddeddf honno.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o "cymorth ariannol perthnasol", mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, ceir cysylltair "or" ar ôl paragraff (f) ond nid oes cysylltair yn y lle cyfatebol yn y testun Cymraeg. Mae bodolaeth a'r dewis o gysylltair yn arwyddocaol gan ei fod yn dangos i'r darllenydd a yw'r paragraffau'n gronnol ynteu'n gyferbyniol– gweler Drafftio Deddfau i Gymru 2.9(7).

**4. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o "cymorth ariannol perthnasol", ym mharagraff (g), mae'r disgrifiad mewn cromfachau ar ôl y cyfeiriad at adran 22 o Ddeddf 2023 yn datgan "(pwerau Gweinidogion Cymru i roi **cynhorthwy** ariannol pan fo amodau eithriadol yn y farchnad)." Fodd bynnag, dylai nodi "**cymorth** ariannol" fel y nodir yn adran 22 o'r Ddeddf honno.

**5. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o "dyletswydd statudol", ym mharagraff (c), ceir defnydd anghywir, hen ffasiwn o derminoleg yn y cyfeiriad at gategori o ddeddfwriaeth a elwir yn "deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir". Dylid cyfeirio at y categori hwn o ddeddfwriaeth fel "deddfwriaeth uniongyrchol a gymathwyd" neu "assimilated direct legislation" fel y nodir yn adran 5 o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 3(8), mae gwahaniaeth yn y cyfnod o amser a roddir i'r tenant atgyfeirio'r cais i'w gymrodeddu neu i'w benderfynu gan drydydd parti o'i gymharu â'r ddarpariaeth gyfatebol yn rheoliad 3(9) o Reoliadau Daliadau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau a'r Prawf Addasrwydd) (Cymru) 2024. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi "cyfnod o 2 fis" i'r tenant, ond mae'r set arall o Reoliadau yn rhoi "cyfnod o 4 mis" i'r tenant. Nid yw'n glir pam mae gwahaniaeth yn y cyfnod o amser a roddir i'r tenant gan y darpariaethau cyfatebol yn y gwahanol setiau o Reoliadau.

**7. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 4(2)(d), mae'r testun wedi'i ddrafftio'n wahanol i'r ddarpariaeth gyfatebol yn rheoliad 4(2)(d) o Reoliadau Daliadau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau a'r Prawf Addasrwydd) (Cymru) 2024. Yn y Rheoliadau hyn, mae'n datgan "yr adeg y mae'r **dyfarniad** yn cymryd effaith" ond yn y set arall o Reoliadau mae'n datgan, "yr adeg y mae'r **dyfarniad neu'r penderfyniad** yn cymryd effaith". Nid yw'n glir pam mae gwahaniaeth oherwydd caniateir gwneud dyfarniad neu benderfyniad yn y ddwy set o Reoliadau.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**8. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae teitl y Rheoliadau hyn yn ymddangos yn y Memorandwm Esboniadol fel "Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord **ac** Amrywio Telerau) (Cymru) 2024" bob tro y defnyddir y teitl. Gofynnwn i deitl cywir y Rheoliadau hyn gael ei gadarnhau.

**9. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol, yn y rhaglith, gyfeirio at adran 36A(3) o Ddeddf 1995, lle nodir bod unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 8A(7) yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru.

**10. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae Adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol yn disgrifio'r ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn gwneud y rheoliadau hyn:

*Roedd y Papur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru) yn amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno darpariaethau newydd i ddatrys anghydfodau ar gyfer tenantiaethau Deddf 1986, ac yn gofyn a ddylid ymestyn y cynigion i FBTs. Ni ddaeth unrhyw batrwm clir i'r amlwg, ac roedd yn ymddangos bod cefnogaeth amodol yn fwy amlwg ymysg is-set fach.*

*Roedd y rhai a oedd o blaid ymestyn y darpariaethau i Denantiaethau Busnes Fferm (FBT) yn teimlo bod amodau'r farchnad yn cyfyngu ar bŵer a dylanwad tenantiaid i ail-negodi cytundebau. Nododd y gwrthwynebwyr i'r cynigion fod hyblygrwydd y fframwaith FBT wedi arwain at lai o anghydfodau, ac roeddent yn teimlo y gallai unrhyw newid pellach danseilio cyfraith contract a hyder yn y sector gosod.*

*Wedi pwyso a mesur, penderfynodd Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â diwygiad i Ddeddf 1986 yn unig. Fodd bynnag, parhaodd rhai rhanddeiliaid i gyflwyno sylwadau cryf i Lywodraeth Cymru wrth i'r Bil fynd drwy'r Senedd. Awgrymodd trafodaethau dilynol nad yw'r darpariaethau presennol o fewn y Ddeddf, yn ymarferol, yn cynnig llwybr cynhwysfawr i amrywio cymalau mewn FBTs sy'n ymestyn y tu hwnt i welliannau tenantiaid, neu sy'n destun cymal cydsyniad. O ganlyniad, efallai y bydd rhai tenantiaid yn canfod bod eu gallu i amrywio cymalau cyfyngol yn eu prydles yn gyfyngedig, yn enwedig o ystyried bod eu sefyllfa negodi yn wan yn aml. Gallai hyn wedyn gyfyngu ar eu gallu i dderbyn cymorth ariannol neu gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol, gan arwain at y perygl o golled ariannol a chosbau.*

*Cyfaddefodd Llywodraeth Cymru y gallai fod bwlch mewn darpariaethau, er yn fach iawn, ac y gallai diwygio ddileu amwysedd wrth gymhwyso'r rheolau presennol a bod o fudd mewn nifer fach o achosion heb gael effaith niweidiol mewn mannau eraill.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â phwyntiau 1 i 9.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 16 Medi 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) 2024**

**Pwyntiau Craffu Technegol 1 a 2:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwyntiau a godwyd, ond nid yw'n ystyried eu bod yn cael unrhyw effaith ymarferol ar weithrediad y ddarpariaeth na'r offeryn ac ni fydd yn ceisio diwygio'r offeryn mewn cysylltiad â'r pwyntiau hyn.

**Pwynt Craffu Technegol 3:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a godwyd, ond nid yw'n ystyried ei fod yn cael unrhyw effaith ymarferol ar weithrediad y ddarpariaeth na'r offeryn. Fodd bynnag, gan fod rheoliadau diwygio yn ofynnol i fynd i'r afael â phwynt adrodd 6, byddwn yn manteisio ar y cyfle hwnnw i ddiwygio'r ddarpariaeth.

**Pwynt Craffu Technegol 4:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a godwyd, ond nid yw'n ystyried ei fod yn cael unrhyw effaith ymarferol ar weithrediad y ddarpariaeth na'r offeryn ac ni fydd yn ceisio diwygio'r offeryn mewn cysylltiad â'r pwynt hwn. At hynny, rydym yn anghytuno. Mae'r disgrifiad mewn cromfachau ar ôl y cyfeiriad at adran 22 o Ddeddf 2023 yn adlewyrchu'r disgrifiad a ddefnyddir yn adran 24(2)(c) a (4) o Ddeddf 2023.

**Pwynt Craffu Technegol 5:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a godwyd, ond nid yw'n ystyried ei fod yn cael unrhyw effaith ymarferol ar weithrediad y ddarpariaeth na'r offeryn. Fodd bynnag, gan fod rheoliadau diwygio yn ofynnol i fynd i'r afael â phwynt adrodd 6, byddwn yn manteisio ar y cyfle hwnnw i ddiwygio'r ddarpariaeth.

**Pwynt Craffu Technegol 6:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a bydd yn diwygio'r Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau y cyfeirir yn gyson at "cyfnod o 4 mis". Eir i'r afael â hyn drwy reoliadau diwygio yr ydym yn bwriadu eu cyflwyno cyn diwedd 2024.

**Pwynt Craffu Technegol 7:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a godwyd, ond nid yw'n ystyried ei fod yn cael unrhyw effaith ymarferol ar weithrediad y ddarpariaeth na'r offeryn. Fodd bynnag, gan fod rheoliadau diwygio yn ofynnol i fynd i'r afael â phwynt adrodd 6, byddwn yn manteisio ar y cyfle hwnnw i ddiwygio'r ddarpariaeth.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 8:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a godwyd ac yn cadarnhau mai'r enw a ddefnyddir yn y Rheoliadau yw'r un cywir. Mae'r Memorandwm Esboniadol wedi ei ddiwygio yn unol â hynny.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 9:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a godwyd. Fodd bynnag, gan nad yw adran 36A(3) o Ddeddf 1995 yn bŵer galluogi, rydym wedi dilyn ein harferion drafftio arferol, ac adran 3.11.23 o "Statutory

Instrument Practice” yr Archifau Gwladol, sy’n nodi’n glir “You should not cite provisions that merely specify the relevant Parliamentary procedure”.

# SL(6)519 – Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o becyn o is-ddeddfwriaeth sy'n dwyn i rym ac yn gweithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ('Deddf 2023').

Cafodd Deddf 2023 Gydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2023. Mae'n ddeddf gydgrynhoi ac yn ailddatgan deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth ac yn ymgorffori rhai cyfreithiau achosion ac arferion cysylltiedig. Mae'r pecyn hwn o reoliadau yn ailddatgan is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â dynodi, diogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Maent hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch cytundebau partneriaethau sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig yng Nghymru, yn benodol ynghylch gofynion ymgynghori a chyhoeddusrwydd wrth wneud neu amrywio cytundebau o'r fath. Maent yn disodli Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021, sy'n cael eu dirymu gan reoliad 7 o'r Rheoliadau hyn.

Mae cytundeb partneriaeth yn gytundeb rhwng perchennog adeilad rhestredig yng Nghymru a naill ai'r awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru neu'r ddau. Gall fod partïon ychwanegol hefyd i gytundeb partneriaeth, gan gynnwys unrhyw berson sydd â gwybodaeth arbennig am yr adeilad rhestredig neu sydd â diddordeb arbennig ynddo, yn gyffredinol neu'n benodol. Caiff cytundeb partneriaeth roi cydsyniad adeilad rhestredig o dan adran 89(1) o Ddeddf 2023 mewn cysylltiad â rhaglen waith a bennir yn y cytundeb. Dim ond ar gyfer addasu neu estyn yr adeilad rhestredig y mae'r cytundeb yn gymwys iddo y caniateir cyflawni'r gwaith, er y gall cytundeb partneriaeth ymwneud â mwy nag un adeilad rhestredig. Caiff y cydsyniad hwnnw fod yn ddarostyngedig i amodau.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 3 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## 1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Diffinnir y term “cytundeb partneriaeth” yn rheoliad 2. Fodd bynnag, mae nifer o achosion yn y Rheoliadau hyn lle defnyddir amrywiadau i’r term hwn, yn benodol “cytundeb” a “cytundeb presennol”. Er enghraifft, defnyddir “cytundeb presennol” yn rheoliadau 3(2) a 6(b), a defnyddir “cytundeb” yn rheoliadau 3(2)(b) a (3), a 6(b)(i) a (ii).

Yn yr un modd, diffinnir y term “awdurdod cynllunio” yn rheoliad 2. Fodd bynnag, ceir achosion pan ddefnyddir y term “awdurdod”, megis yn rheoliad 5(2)(d)(iii) a (5).

Yn olaf, mae tri achos yn rheoliad 5(9), yn y diffiniad o “perchennog”, lle defnyddir y term “adeilad”, yn hytrach na'r term diffiniedig sef “adeilad rhestredig”. Ceir achosion eraill lle mae’r term “adeiladau” yn cael ei ddefnyddio, yn hytrach na’r term diffiniedig sef “adeilad rhestredig”, sy’n ymddangos yn briodol gan nad ydynt yn cael eu defnyddio yng nghyd-destun adeilad rhestredig, megis wrth ddisgrifio “adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol yn fwy cyffredinol” yn rheoliad 5(2)(d)(iii) a (7).

Er ei bod yn ymddangos ym mhob un o’r achosion hyn bod bwriad y ddarpariaeth berthnasol yn dal yn glir er bod term gwahanol yn cael ei ddefnyddio, ac efallai y bydd modd dibynnu ar adran 9 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 i ddehongli’r amrywiadau hyn yn unol â’r termau diffiniedig yn rheoliad 2, efallai y byddai wedi bod yn ddefnyddiol o ran cysondeb pe bai’r termau diffiniedig wedi’u defnyddio drwy’r Rheoliadau i gyd.

## 2. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio’r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn rheoliad 5(2)(d), er eglurder, byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai’r testun agoriadol wedi’i ddarllen, *“rhoi copi o’r hysbysiad **a bennir yn is-baragraff (c)** i-”* (testun ychwanegol wedi’i dywyllu), o gofio nad yw rheoliad 5(2) yn ymdrin yn unig â darparu hysbysiad a’r wybodaeth y mae’n rhaid iddo ei gynnwys. Er enghraifft, mae rheoliad 5(2)(a) yn ymwneud â sicrhau bod dogfennau penodol ar gael i’r cyhoedd eu harchwilio, yn hytrach na darparu hysbysiad.

## 3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Yn rheoliad 5(9), diffinnir “tenant hirdymor” fel “tenant o dan les a roddir neu a estynnir am gyfnod penodol sydd ag o leiaf **2 flynedd** yn weddill” (pwyslais wedi'i ychwanegu).

Yn yr un modd, diffinnir “perchennog” yn yr un rheoliad fel un sy’n cynnwys (yn ogystal â pherchennog yr ystad rydd-ddaliol) “[t]enant o dan les ar yr adeilad neu’r rhan a roddir neu a estynnir am gyfnod penodol sydd ag o leiaf 7 mlynedd yn weddill” (pwyslais wedi'i ychwanegu).

Mae hyn yn ymddangos fel pe bai’n creu sefyllfa lle gall tenant o dan les am gyfnod penodol sydd ag o leiaf 7 mlynedd yn weddill gael ei gynnwys yn y diffiniad o “tenant hirdymor” a

“pherchennog”, gan nad yw’r diffiniad o “tenant hirdymor” wedi’i gyfyngu i denantiaid sy’n destun les cyfnod penodol o 2 flynedd o leiaf ond llai na 7 mlynedd.

Nodir nad yw’n ymddangos bod hyn yn creu unrhyw ganlyniadau anghyfartal yn ymarferol gan ei bod yn ofynnol i awdurdod cynllunio roi copi o hysbysiad a nodir yn rheoliad 5(2)(d) i unrhyw “denant hirdymor” a/neu “perchennog” nad yw’n barti arfaethedig i’r cytundeb drafft na’r amrywiad drafft. Ond nodir bod awdurdod cynllunio sy’n “berchennog” adeilad neu adeiladau rhestredig y mae cytundeb drafft neu amrywiad drafft yn ymwneud ag ef yn ddarostyngedig i reoliad 5(7), yn unol â rheoliad 5(6). Nid yw hyn yn berthnasol i awdurdod cynllunio sy’n “denant hirdymor”.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro ai’r bwriad y tu ôl i reoliad 5(9) yw y bydd tenantiaid o dan les am gyfnod penodol sydd ag o leiaf 7 mlynedd yn weddill ar ôl yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o “tenant hirdymor” a “perchennog” ac, os yw hynny'n wir, a oes unrhyw ganlyniadau y dylai'r Pwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn:

4. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Mae rheoliad 4(4) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, yn ystod y cyfnod ymgynghori a bennir o dan reoliad 4(2)(b), roi hysbysiad i’r awdurdod cynllunio a wahoddodd sylwadau fod arnynt angen rhagor o amser i ystyried y cytundeb drafft neu’r amrywiad drafft. Mae rheoliad 4(5) yn darparu, os bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi’r hysbysiad hwn, estynnir y cyfnod ymgynghori am y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad hwnnw.

Nid yw'n ymddangos bod unrhyw gyfyngiad statudol yn cael ei osod ar y pŵer hwn i estyn y cyfnod ymgynghori trwy rybudd. Er enghraifft, ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cyfnod hwyaf y caniateir i’r cyfnod ymgynghori gael ei estyn gan Weinidogion Cymru.

Er y cydnabyddir bod rheoliad 5(4) a (5) yn ailddatganiad o’r ddarpariaeth a nodir yn rheoliad 5(4) a (5) o Reoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021, gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro sut y defnyddir y pŵer hwn yn ymarferol ac a roddwyd unrhyw ystyriaeth i osod cyfyngiad statudol arno.

5. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Nodir nad oedd rhai o ddarpariaethau Deddf 2023 y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hyn mewn grym ar y dyddiad y gwnaed y Rheoliadau hyn. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys adran 76(5) o Ddeddf 2023, y cyfeirir ati yn y diffiniad o “adeilad rhestredig” yn rheoliad 2.

Fodd bynnag, yn unol â Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Cychwyn) 2024, bydd gweddill darpariaethau Deddf 2023 (ac eithrio adran 147, na chyfeirir

ati yn y Rheoliadau hyn) yn dod i rym ar 4 Tachwedd 2024, sef yr un dyddiad â daw'r Rheoliadau hyn i rym.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru o ran pwyntiau adrodd 1-4.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 23 Medi 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024**

Pwynt Craffu Technegol:

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

   Nod gwaith drafftio yw gwneud deddfwriaeth mor glir a syml â phosibl tra'n cyflawni lefel resymol o sicrwydd. Mae hynny'n ymestyn i alluogi darllenydd i ddarllen testun sy'n llifo'n dda. Mae enghreifftiau eraill o ddrafftwyr nad ydynt yn ystyried ei bod yn angenrheidiol nac yn ddefnyddiol i ailadrodd term diffiniedig llawn pan fo'n codi yng nghyd-destun defnydd blaenorol. Gweler er enghraifft adrannau 17 a 19 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 a'r defnydd o "cydsyniad". Mae hynny'n ddewis drafftio dilys ac mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r Senedd bod bwriad y darpariaethau yn parhau i fod yn glir yn y Rheoliadau hyn.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

   Gweler uchod o ran nod gwaith drafftio. Mae'r cyfeiriad at "o'r hysbysiad" yn rheoliad 5(2)(d) yn union ar ôl y cyfeiriad at "hysbysiad" yn is-baragraff (c). Felly, nid oes angen croesgyfeirio at is-baragraff (c); gweler y pwynt ym mharagraff 5.6(2) o *Drafftio Deddfau i Gymru* am gymhariaeth. Mae hyn yn ddewis drafftio dilys ac nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod y drafftio yn ddiffygiol.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

   Mae rheoliad 5(2)(d) yn rhestru'r personau y mae rhaid i'r awdurdod cynllunio roi hysbysiad iddynt. Mae gorgyffwrdd rhwng y diffiniad o "perchennog" a "tenant hirdymor" nad yw o unrhyw bwys mewn cysylltiad â rheoliad 5(2)(d)(i) a (ii).

   Mewn perthynas â gweithredu rheoliad 5(6) a (7), nid yw'n fwriad polisi ond nodi'r amgylchiadau hynny pan mai'r awdurdod cynllunio yw'r 'perchennog', nid pan fo ganddo fuddiant llai.

   Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r Senedd nad yw'r gorgyffwrdd yn y diffiniadau yn creu unrhyw ganlyniadau anghyfartal ac mae'n fodlon ar weithrediad y darpariaethau hyn.

Pwynt Craffu ar Rinweddau:

4. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nid yw’r ddarpariaeth wedi ei rhoi ar waith. Bwriedir i gytundebau partneriaeth adeiladau rhestredig fod yn drefniadau cydweithredol a chefnogol ar gyfer rheoli adeiladau hanesyddol. Bydd cytundebau o’r fath yn amrywio o ran maint a chymhlethdod a gall y gofynion ymgynghori fod yn wahanol yn unol â hynny. O ganlyniad, nid ystyriwyd cyflwyno cyfyngiad statudol. Fel unrhyw bŵer dewisol byddai’n rhaid ei arfer yn rhesymol ac yn unol ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus cyffredinol eraill.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HIDCC/PO/0254/24

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

26 Medi 2024

Annwyl Mike,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, hoffwn roi gwybod ichi y cynhaliwyd cyfarfod arall o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar 16 Medi 2024, ble yr oeddwn yn bresennol.

Cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Steve Reed AS.

Roedd Mary Creagh AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (Gweinidog Natur) yn y cyfarfod hefyd, y Farwnes Hayman, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Mairi Gougeon ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig, Diwygio Tir ac Ynysoedd, Jim Fairlie ASA, y Gweinidog Amaethyddiaeth a Chysylltedd, ac Andrew Muir ACD, y Gweinidog Amaethyddiaeth, Materion Gwledig a'r Amgylchedd.

Rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig yn crynhoi'r trafodaethau yn y cyfarfod. Cytunodd y Grŵp i sefydlu cysylltiadau rhynglywodraethol cryfach yn seiliedig ar egwyddorion gonestrwydd, ymddiriedaeth a pharch ac, yn y cyd-destun hwn, gwnaethom gytuno ar Gylch Gorchwyl newydd ac uchelgeisiol. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU a byddaf yn rhoi dolen i chi i'r rhain maes o law.

Gwnaethom gytuno ar amserlen o gyfarfodydd ar gyfer 2024 a 2025 i hwyluso ymgysylltu a goruchwylio sawl maes cydweithredu gwell.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 18 Tachwedd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yr eiddoch yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

26 Medi 2024

Annwyl Mike

Rwy'n ysgrifennu atoch am y tro cyntaf yn fy rôl yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi yn rhinwedd y rôl hon. Dyma roi gwybod ichi y bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid yn cael ei gynnal ar 3 Hydref yn Belfast. Hwn fydd cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor gyda Llywodraeth newydd y DU, ac edrychaf ymlaen at drafodaeth adeiladol.

Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar y cyd-destun a'r cynlluniau economaidd a chyllidol, gan gynnwys gwaddol gwariant Llywodraeth y DU. Byddaf yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb yr Hydref ac Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU. Mae hyn yn cynnwys ein huchelgais ar y cyd i sbarduno twf, adnewyddu gwasanaethau cyhoeddus a chyflymu'r gwaith o gyflawni sero net. Byddaf hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 ac Adolygiad o Wariant Llywodraeth Cymru.

Bydd trafodaeth ar hyblygrwydd cyllidol yn cael ei chynnal a byddaf yn amlinellu'r pwysigrwydd bod gan Lywodraeth Cymru hyblygrwydd cyllidebol priodol, a byddwn yn trafod opsiynau i'n galluogi ni i wneud y mwyaf o'n hadnoddau.

Bydd y cyfarfod hefyd yn canolbwyntio ar gydweithio a blaenoriaethau a rennir. Bydd hyn yn gyfle i drafod materion hirdymor, a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i wneud cynnydd, gan gynnwys dyfodol cronfeydd newydd yr UE.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn cyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ar wahân er mwyn trafod materion sy'n benodol i Gymru. Byddaf yn adrodd wrth y Pwyllgor am ganlyniadau'r cyfarfod.

Yn gywir



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/10102/24

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

24 Medi 2024

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ymestyn Cyfnod Trosiannol) ac Iechyd Planhigion (Amlder Gwiriadau) (Diwygio Amrywiol) 2024 ("Rheoliadau 2024").

Rydym wedi derbyn llythyr gan y Farwnes Sue Hayman, y Gweinidog Bioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid, yn gofyn am gydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Bydd y Rheoliadau yn ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Gwneir y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a roddir o dan y canlynol:

- Erthygl 144(6) o, a pharagraffau 2 a 3(2) o Atodiad 6 i Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ('yr OCR').

Diben Rheoliad 2024 yw ymestyn cyfnod gweithredu gwiriadau mewnforio ar rai nwyddau iechydol a ffytoiechydol penodol sy'n dod i'r Deyrnas Unedig ('DU') o rai gwledydd, tan 1 Gorffennaf 2025.

Yn ogystal, mae'r offeryn hwn yn ymestyn hawddfraint sy'n oedi'r gofyniad am wiriadau mewnforio (sy'n berthnasol i weddill gwledydd y byd) mewn perthynas â phlanhigion, cynhyrchion planhigion, a gwrthrychau eraill (megis peiriannau a cherbydau a ddefnyddiwyd at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth) sy'n dod i'r Deyrnas Unedig o'r UE, Liechtenstein a'r Swistir trwy Borthladd Arfordir y Gorllewin (fel y'i rhestrir yn y diffiniad o 'borthladd perthnasol' ym mharagraff 2 o Atodiad 6 i Reoliad ( UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ('y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol'), cyn 1 Gorffennaf 2025. Mae'r offeryn hefyd yn ychwanegu Porthladd Abertawe at y rhestr o Borthladdoedd Arfordir y Gorllewin (a gynhwysir yn y diffiniad uchod o 'borth perthnasol').

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn olaf, mae'r offeryn yn ymestyn hawddfraint sy'n oedi'r gofyniad am wiriadau mewnforio (sy'n berthnasol i weddill gwledydd y byd) mewn perthynas â ffrwythau a llysiau penodol fel y nodir yn Atodlen 2A o Reoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020 a fewnforiwyd o'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir cyn 1 Gorffennaf 2025.

Nid yw'r Rheoliadau yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt Llywodraeth y DU ar bioddiogelwch yn y dyfodol. Nid yw'r Rheoliadau yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod yn briodol i'r offeryn hwn fod yn gymwys i Gymru gan nad oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a'r DU yn y mater hwn. Credaf nad deddfu ar wahân i Gymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu'r newidiadau angenrheidiol ac na fyddai'n ddefnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Y Cyfarfod Llawn**

**Plenary**

**24/09/2024**

*Mae hon yn fersiwn ddrafft o'r Cofnod sy'n cynnwys yr iaith a lefarwyd a'r cyfieithiad ar y pryd.*

*This is a draft version of the Record that includes the floor language and the simultaneous interpretation.*

# 3. Datganiad gan y Prif Weinidog: Cysylltiadau rhynglywodraethol
# 3. Statement by the First Minister: Inter-governmental relations

**Y Llywydd / The Llywydd** *15:00:52*

129 Datganiad gan y Prif Weinidog nesaf ar gysylltiadau rhynglywodraethol. Y Prif Weinidog felly i wneud ei datganiad—Eluned Morgan.

The next item is a statement by the First Minister on inter-governmental relations. I call on the Prif Weinidog to make the statement—Eluned Morgan.

**Eluned Morgan** *15:01:02*

***First Minister of Wales***

130 Diolch yn fawr. The Welsh Government is determined to deliver on our priorities. We will do this by working with public sector partners, those in Wales and beyond, in particular the new UK Labour Government. As First Minister, I commit to bringing energy and respect to this important work, and continue to stand up for Wales's interests within a thriving and vibrant union. Two Governments working together for the benefit of Wales is in the best interests of people right across the country.

131 We have not always seen respect in our inter-governmental landscapes over the last decade and a half. Of the 25 years of devolution, half of that time has been spent working alongside a Government that doesn’t respect the devolution settlement, and didn’t have Wales’s best interests at heart. We will shortly be laying and publishing the 2023-2024 inter-governmental relations annual report. I'm not going to dwell on that further, but I invite Members to read it and reflect for themselves on how inter-governmental relationships suffered during the previous UK Government’s time in power.

132 The formation of the new UK Government has provided a major opportunity to reset relations and begin a new era of partnership between the Welsh and UK Governments. We are determined to work together in the interests of delivering for the citizens of Wales. This doesn't mean that we will always choose the same path as colleagues working in London, but when we do disagree, we'll do that with respect and we'll always ensure that those decisions work in the best interests of the people of Wales.

133 That shared commitment to reset relations has already been very evident over the summer. I have had conversations with the Prime Minister, Chancellor and the Secretary of State for Wales to facilitate a collective response to critical immediate issues—on Tata, on public sector pay, on the issues that matter most to the people of Wales. Those conversations have opened a space to work in partnership to support and respect each other’s priorities.

134 We've seen positive engagement on the UK Government’s legislative programme, and we look forward to working with them on Bills in that programme that can benefit Wales. There are clearly areas where we in Wales can share our own experience and expertise, and we stand ready to do so. I also look forward to working together with the new UK Government to strengthen the Sewel convention through a new memorandum of understanding outlining how the nations will work together for the common good.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Rees) i’r Gadair.*

*The Deputy Presiding Officer (David Rees) took the Chair.*

**Eluned Morgan** *15:03:55*

***First Minister of Wales***

135 Mae ein hymgysylltiad gyda'r Canghellor a'r Prif Ysgrifennydd i'r Trysorlys wedi adlewyrchu ailosodiad positif o berthnasoedd ac adfywiad ysbryd cydweithredol. Pan wnaeth cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a minnau gyfarfod â'r Canghellor ym mis Awst, fe wnaethom ni gytuno ar yr angen i osod sylfaen am berthynas agos a chynhyrchiol i gyflawni canlyniadau clir ar gyfer ein blaenoriaethau cyffredin yng Nghymru. Fe wnes i dynnu sylw at y materion sy'n bwysig i Gymru, gan gynnwys ein hymgysylltiad yn adolygiad gwariant y Deyrnas Unedig, cyllid teg i Gymru a hyblygrwydd cyllidebol.

136 Rhaid i ni gofio bod record economaidd Llywodraeth flaenorol y Deyrnas Unedig dros y 14 mlynedd diwethaf wedi gadael heriau sylweddol. Bydd mynd i'r afael â'r effeithiau ar unigolion, cymunedau a chyllid cyhoeddus yn cymryd ymdrech ac amser sylweddol. Er hynny, dwi'n hyderus y bydd, yn Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig, gyda ni bartner ymroddedig a fydd yn gweitho gyda ni ar y weledigaeth rŷn ni'n ei rhannu ar gyfer dyfodol Cymru. Wrth gwrs, nid yw perthnasoedd rhynglywodraethol ar draws yr ynysoedd hyn yn ddwyochrog yn unig. Mae Llywodraeth Cymru wedi elwa o berthnasoedd cryf gyda'r Llywodraethau datganoledig eraill, a hefyd gyda Chyngor Prydain ac Iwerddon. Byddwn ni'n parhau i adeiladu ar y perthnasoedd cadarnhaol hyn.

Our engagement with the Chancellor and Chief Secretary to the Treasury has very much reflected a positive resetting of relationships and reinvigoration of collaborative spirit. When the then Cabinet Secretary for Finance and I met with the Chancellor in August, we agreed on the need to set the foundations for a close and productive relationship to achieve tangible outcomes for our shared priorities in Wales. I was able to highlight the issues that are important to Wales, including our engagement in the UK spending review, fair funding for Wales and budgetary flexibilities.

We must remember that the previous UK Government's economic record over the past 14 years has left significant challenges. Addressing the impacts on individuals, communities and public finances will require considerable time and effort. However, I am confident that, in the new UK Government, we have a committed partner who will work with us on a shared vision for Wales's future. Of course, inter-governmental relationships across these islands are not simply bilateral. The Welsh Government has always benefited from strong relationships with the other devolved Governments, and with the British-Irish Council. We will continue to build on these positive relationships.

137 The Welsh Government continues to believe that the review of inter-governmental relations, agreed in January 2022, can provide the machinery needed to bring the Governments of the UK together, to discuss the right things at the right time. But there are more connections to be made and strengthened, and that is why we welcome the Prime Minister's proposal for a new council of nations and regions—a way to bring together the Governments and the mayors of combined authorities across the UK. I look forward to participating in the first meeting, which will be held in the coming weeks.

138 In strengthening our intergovernmental relations and the devolution settlement, we'll seek to progress and build on the conclusions and recommendations of the Independent Commission on the Constitutional Future of Wales. The strengthening of inter-governmental relations since the UK elections is something to be really strongly welcomed. The Welsh Government will seek to capitalise on the opportunity to work in partnership with the UK Government for the benefit of the people of Wales.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/5924/24

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

26 Medi 2024

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau (ETS) y DU (gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn aelodau ohono), wedi cysylltu heddiw â'r rheini sy'n cymryd rhan yn y cynllun ETS i ofyn am eu barn ynghylch symud ail gyfnod dyrannu lwfansau di-dâl y cynllun o 2026 i 2027.

Un o brif rolau Awdurdod ETS y DU yw alinio'r Cynllun â thargedau sero net, sicrhau bod y Cynllun yn gweithio fel y dylai a'i fod yn cefnogi datgarboneiddio heb wneud busnesau yn llai cystadleuol. Un ffordd o sicrhau bod y farchnad yn parhau'n gystadleuol yw dyrannu lwfansau di-dâl ETS y DU. Nod lwfansau di-dâl yw diogelu'r diwydiant yn y DU rhag cystadleuwyr o rannau eraill o'r byd nad ydynt yn gorfod talu am brisio carbon (dadleoli carbon).

Er mwyn rhoi sicrwydd i fasnachwyr ETS y DU ynghylch eu lwfansau di-dâl yn y dyfodol, ymgynghorodd yr Awdurdod ar adolygiad o'r broses o ddyrannu lwfansau di-dâl, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023[1]. Mae'r adolygiad yn arbennig o bwysig i Gymru gan fod rhai o'n diwydiannau yn agored iawn i gystadleuaeth oddi wrth ddiwydiannau byd-eang nad ydynt yn wynebu costau prisio carbon, ac yn anos eu datgarboneiddio.

Mae diwydiannau o Gymru'n cael llawer o gymorth drwy lwfansau di-dâl. Mae'n bwysig nad ydym yn rhoi diwydiant Cymru dan unrhyw anfantais; rhag i'r diwydiannau hynny adleoli i wledydd nad oes ganddynt yr un uchelgais o ran yr hinsawdd. Bydd risg iddynt o wneud gynyddu allyriadau byd-eang a gwneud y broses bontio i sero net yn un annheg.

---

[1] Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: adolygiad dyrannu am ddim - GOV.UK (www.gov.uk)

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn dilyn yr Adolygiad o'r Broses Dyrannu Lwfansau Di-dâl, bydd yr ail gyfnod dyrannu, y bwriadwyd ei gynnal yn wreiddiol yn 2026, yn cael ei ddefnyddio i newid y drefn. Byddai symud yr ail gyfnod dyrannu i 2027 yn golygu bod unrhyw newidiadau yn sgil yr adolygiad yn cael eu rhoi ar waith flwyddyn yn ddiweddarach na'r hyn a fwriadwyd. Fodd bynnag, byddai'n ein galluogi i alinio’r newidiadau i bolisi dyrannu ETS y DU â chynlluniau Llywodraeth y DU i gyflwyno Mecanwaith Newid Ffiniau Carbon y DU (CBAM) yn 2027, sydd ynddo'i hun yn fesur i leihau dadleoli carbon. Derbyniodd yr Awdurdod nifer fawr o ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad yn gynharach eleni a nodwyd bod pobl o blaid yr alinio i sicrhau dull cyson o leihau dadleoli carbon. Bydd ei symud i 2027 yn rhoi mwy o amser i ystyried barn rhanddeiliaid a datblygu polisi mewn maes cymhleth ac anodd.

Bydd yr Awdurdod yn ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid yr effeithir arnynt, bydd yr ymgynghoriad ar agor am bythefnos a bydd Awdurdod ETS y DU yn ymateb cyn gynted â phosibl i roi sicrwydd i gyfranogwyr y cynllun ynghylch eu lwfansau di-dâl ym mlwyddyn 2026 y cynllun. Ni fydd yr ymgynghoriad yn cael ei gyfieithu gan fod rhanddeiliaid yr effeithir arnynt eisoes wedi mynegi mai Saesneg yw eu dewis iaith.

Byddaf wrth gwrs yn ysgrifennu atoch eto pan gaiff Ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad o’r Broses Dyrannu Lwfansau Di-dâl ei gyhoeddi. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn ein helpu i fireinio'r cynllun, ac yn ein galluogi i greu trefniadau mwy cadarn a fydd yn cymell diwydiant i arloesi, yn sbardun i ostwng allyriadau ac yn sicrhau dyfodol cydnerth a chynaliadwy i Gymru.

Rwyn anfon copi o'r llythyr hwn at Llŷr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 12

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon